Arolygiaeth Prawf EM

# Adroddiad Blynyddol 2021: archwiliadau o wasanaethau troseddau ieuenctid

## Gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid o ansawdd uchel sy'n newid bywydau pobl er gwell

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gosod y safonau sy'n taflu goleuni ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn. Mae ein harolygiadau, ein hadolygiadau, ein hymchwil a'n cynnyrch ymarfer effeithiol yn darparu barn a chyfarwyddyd awdurdodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn defnyddio ein llais i sbarduno newid yn y system, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a chymunedau.

## Cynnwys


1. Chief Inspector's overview ....... 3
2. Contextual facts ....... 9
   - Our youth inspections 2020/2021 ....... 10
   - Inspection ratings 2020/2021 ....... 11
3. The continuing challenge of Covid-19 ....... 15
4. Our 2020/2021 ratings – organisation and delivery of youth offending services ....... 21
   - Governance and leadership ....... 23
   - Staffing ....... 26
   - Partnerships and services ....... 27
   - Education, training and employment ....... 28
   - Resettlement ....... 30
5. The quality of court and out-of-court case supervision ....... 33
   - The management of court and out-of-court disposals ....... 36
   - The management of risk of harm ....... 41
6. The quality of YOS work with specific groups of children ....... 45
   - Children looked after by the local authority ....... 45
   - The service provided to black and mixed heritage children ....... 47
   - A thematic inspection of the experiences of black and mixed heritage boys in the youth justice system ....... 48
   - Ethnicity of inspection caseloads in 2020/2021 ....... 51
   - Understanding the needs of children from black, Asian, minority ethnic and mixed heritage backgrounds ....... 52
7. Effective practice guidance ....... 57

Annexe 1: Case data splits ....... 60

Annexe 2: Description of a Youth Offending Service ....... 65

Annexe 3: Description of youth inspection methodology ....... 66

Annexe 4: Academic insight publications on youth justice themes ....... 69


***Sylwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi eu newid drwy gydol yr adroddiad er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolyn.***


© Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.



Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Prawf EM
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX
Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation
ISBN: 978-1-914478-36-9

# 1. Trosolwg gan y Prif Arolygwyr



Er gwaethaf yr heriau enfawr a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19, mae ein harolygiadau ieuenctid, rhwng diwedd 2020 a 2021, wedi dangos perfformiad clodwiw gan wasanaethau troseddau ieuenctid lleol. O'r 33 o wasanaethau troseddau ieuenctid a arolygwyd ers fy adroddiad blynyddol diwethaf, mae dwy ran o dair wedi cael sgôr 'Dda' neu 'Ragorol' ac nid oedd yr un ohonynt yn 'Annigonol'. Mae ein sgoriau ar gyfer rheoli ac arwain yn gymharol well eleni a gwelsom ansawdd gwaith gwell gydag achosion y tu allan i'r llys.

### Effeithiau parhaus Covid-19

Fel y nodais y llynedd, llwyddodd Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid lleol i addasu eu darpariaeth yn gyflym iawn, ddiwedd mis Mawrth 2020, i gyfyngiadau'r pandemig o ran y cyfyngiadau symud a'r rheoliadau cadw pellter cymdeithasol. Ym mhennod dau, ar sail cyfweliadau ag uwch arweinwyr timau troseddau ieuenctid a gynhaliwyd ddiwedd 2021, rydym yn edrych ar ymateb parhaus nifer o wasanaethau i'r pandemig, a oedd, yn ein barn ni, yn amrywio'n sylweddol ledled y wlad. Roedd symud dro ar ôl tro i mewn ac allan o gyfyngiadau Covid-19 yn golygu bod staff rheng flaen a rheolwyr wedi blino ond yn benderfynol o gynnal gwasanaeth i'r plant dan eu gofal, ac wedi ymrwymo i gyswllt wyneb yn wyneb â phlant gymaint â phosibl. Er bod rhai gwasanaethau wedi cadw swyddfeydd yn agored drwy gydol y pandemig, roedd polisïau eu hawdurdod lleol eu hunain wedi cyfyngu'n ddifrifol ar eraill, a dim ond cyfran fach iawn o staff oedd wedi gallu dod i'r swyddfa. Mae tuedd a ddechreuodd cyn y pandemig tuag at fynd â Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid 'allan i'r plentyn', yn hytrach na dibynnu ar apwyntiadau swyddfa, wedi cyflymu, gydag amrywiaeth eang o leoliadau cymunedol a mannau awyr agored yn cael eu defnyddio ac ymweliadau cartref yn cael eu hadfer wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi. Roedd cyfarfodydd panel a phartneriaethau aml-asiantaeth a chynadleddau achos yn parhau ar-lein drwy gydol y pandemig ac roedd yn ymddangos eu bod yn debygol o barhau i wneud hynny. Mae addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a darpariaeth iechyd meddwl wedi bod yn amrywiol ac yn heriol.

Roedd llwyth achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi lleihau ymhellach yn ystod cyfnod y pandemig, yn enwedig gwaith wedi ei drefnu gan y llys, ac mae hyn wedi galluogi gwasanaethau i dreulio mwy o amser ar weithgarwch atal neu gyda phob plentyn unigol. Roedd y rheolwyr achos a gyfwelwyd gennym yn ystod ein harchwiliadau fel arfer yn goruchwylio llwythi achosion o dri i 15 fesul gweithiwr achos.

Mae'r tueddiadau hyn yn amlwg yn yr ystadegau cenedlaethol hefyd. Mae data ar gyfer cyfnod y pandemig, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, yn dangos gostyngiadau enfawr yn nifer yr achosion ieuenctid sy'n dod i'r system cyfiawnder ieuenctid o'i gymharu â 2019/2020. Roedd nifer yr achosion o arestio ar eu hisaf ers blynyddoedd lawer – ac roeddent 19 y cant yn is o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; roedd nifer yr 'achosion o ddedfrydu' yn y llys 28 y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol. Ymunodd 8,800 â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf ar draws Cymru a Lloegr, a gostyngodd y boblogaeth o bobl ifanc mewn caethiwed yn gymesur â'r nifer fwyaf mewn blwyddyn ers i'r cofnodion ddechrau, i 560 ym mis Mawrth 2021, sy'n ostyngiad o 28 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac i lawr o 2,000 yn 2011.

Wrth gwrs, nid yw hynny'n golygu bod pob math o droseddau ieuenctid wedi lleihau. Yn wir, ar ôl i gyfnod clo Covid-19 ddod i ben yn 2021, roedd arwyddion bod trais difrifol wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd. Roedd y 30 o ddioddefwyr dynladdiad yn Llundain yn 2021 y nifer uchaf erioed, ac adroddodd rhai o'r rheolwyr Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid y

siaradais â nhw ar ddiwedd 2021 am gynnydd sydyn mewn trais ieuenctid difrifol yn eu hardaloedd yn ail hanner y llynedd.

### Arwain a rheoli gwasanaethau

Mae pennod pedwar yr adroddiad hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harolygon lleol a'n bwletinau ymchwil mewn perthynas â'r ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u harwain. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau cynnar o'n safon newydd sy'n edrych ar ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n gadael y ddalfa.

Roedd ein sgoriau ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethu yn uwch dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda hanner y gwasanaethau a arolygwyd gennym bellach yn cael sgôr 'Da' neu 'Rhagorol'. Mae'r duedd i integreiddio Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn llwyr i gyfarwyddiaethau gwasanaethau plant wedi parhau, ac mae ffocws newydd i'w groesawu ar ddiogelu cyd-destunol a gwasanaethau i'r glasoed. Roedd yn arbennig o dda gweld y gwelliant sylweddol iawn mewn arweinyddiaeth a morâl staff wrth ailarolygu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Blackpool – sydd bellach yn cael sgôr 'Da' ar ôl cael sgôr 'Annigonol' yn 2018. Er gwaethaf heriau'r pandemig, cafodd pum gwasanaeth sgôr gyffredinol o 'Rhagorol', gan gynnwys GCI Brighton a Hove, a gafodd sgôr 'Rhagorol' ym mhob un o'n 12 safon ansawdd.

Mae'r gwasanaethau'n dal i gael eu staffio'n eithaf da, gyda'r rhan fwyaf o'r rheolwyr achos a gyfwelwyd gennym yn dweud bod modd rheoli eu llwyth achosion. Ond, ar draws ein harolygiadau, gwelsom nifer o Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid lle'r oedd swyddi'r swyddogion prawf yn wag, yn rhan amser neu lle'r oedd absenoldeb hirdymor a lle'r oedd anawsterau wedi eu nodi gyda recriwtio. O ystyried pwysigrwydd y rolau hyn o ran helpu i reoli'r risg o niwed ac ategu'r broses o drosglwyddo plant hŷn i wasanaethau prawf oedolion, mae hyn wedi creu bwlch hollbwysig ym mhroffil staffio rhai gwasanaethau. Mae gan y Gwasanaeth Prawf ddyletswydd statudol i secondio staff i Wasanaethau Troseddau Ieuenctid i sicrhau bod unrhyw fwlch mewn staffio yn cael ei leihau. Rwyf wedi mynegi fy mhryderon ynghylch arweinyddiaeth y gwasanaeth, y gwn fod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ei rannu, ynghylch a yw'r rhwymedigaeth hon yn cael ei chyflawni.

### Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Ymysg y gwasanaethau arbenigol a ddarperir i blant ar lwythi achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, mae darpariaeth dda mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn arbennig o bwysig i'w cyfleoedd mewn bywyd. Mae addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn gyson ymhlith y tri phrif ffactor y mae ein harolygwyr yn teimlo bod angen rhoi sylw iddynt er mwyn atal aildroseddu.

Gwelsom mai anawsterau o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yw rhai o nodweddion cyffredin y plant sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, gan gynnwys lefelau isel o rifedd a llythrennedd, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac anableddau gwybyddol. Mae plant sydd mewn trafferth â'r gyfraith hefyd yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac mae'r canlyniadau'n gallu effeithio ar eu gallu i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Er bod y pandemig wedi amharu ar addysg pob plentyn ledled y wlad, plant o aelwydydd tlotach sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf o ran ymgysylltu ag addysg yn ystod y cyfnod hwn, oherwydd allgáu digidol.

### Adsefydlu ar ôl bod yn y ddalfa

Plant sy'n cael eu dedfrydu i garchar yw rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, yn ogystal â chyflwyno risg o niwed i eraill. Mae eu hanghenion yn aml yn

gymhleth ac mae darparu gwasanaethau effeithiol i ddiwallu'r anghenion hyn yn gallu bod yn heriol.

Yn 2021, yn dilyn cyfres o arolygiadau thematig cenedlaethol a barodd bryder mawr ynghylch y pwnc hwn, fe wnaethom gyflwyno safon newydd yn ein harchwiliadau lleol a oedd yn canolbwyntio ar ansawdd y gwaith adsefydlu sy'n cael ei wneud gyda phlant sy'n gadael y ddalfa. Cafodd hwn ei gyflwyno ym mis Gorffennaf, gyda'r adroddiad arolygu cyntaf yn cynnwys y safon newydd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021. Mae'n berthnasol i naw o'r 33 archwiliad sy'n cael sylw yn yr adroddiad blynyddol hwn, gyda sgoriau ar gael ar gyfer saith o'r rhain.

Pennwyd bod tri o'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid hyn yn 'Dda' o ran y safon adsefydlu a bod pedwar 'Angen gwella'. Ni chafwyd bod yr un ohonynt yn 'Rhagorol' nac yn 'Annigonol'. Canfuom ddarlun cymysg o ran datblygu polisi. Ers i ni gyflwyno'r safon, mae Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi dechrau canolbwyntio ar adsefydlu. Mae llawer yn adolygu neu'n cyflwyno polisïau adsefydlu, ac mae mwy o ffocws ar sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Mae'r polisïau gorau yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu elfennau allweddol rhaglen adsefydlu gynhwysfawr megis llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gofal iechyd, camddefnyddio sylweddau, cyllid a dyledion, cymorth i deuluoedd a chyswllt. Ond nid oedd polisi cynhwysfawr o reidrwydd yn gwarantu arfer da, a gwelsom wasanaethau lle'r oedd polisi'n gryf, ond yr oedd yr arfer yn wan, ac i'r gwrthwyneb, gwelsom waith achos effeithiol ond canfuom fod y polisïau'n dal i fod ar y cam datblygu.

## Ansawdd gwaith achos y llys a'r tu allan i'r llys

Ym mhob gwasanaeth a archwiliwn, rydym yn cynnal archwiliad manwl o sampl o achosion, gan edrych ar orchmynion llys ac ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Ers fy adroddiad blynyddol diwethaf, rydym wedi archwilio cyfanswm o 362 achos llys a 315 o achosion y tu allan i'r llys. Mae Pennod pump yn crynhoi'r themâu allweddol o'r asesiadau achos hyn ac o'n dadansoddiad ymchwil o'r cyfresi blaenorol o achosion.

Mae llawer o'r themâu hyn yn gyfarwydd o'm hadroddiadau blynyddol blaenorol. Mae ansawdd y gwaith a wneir gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid i ganfod y ffactorau sy'n gyrru troseddu ymysg pobl ifanc a'u hanghenion cymdeithasol a lles sylfaenol yn parhau'n gryf: Roedd 78 y cant neu ragor o'r achosion a arolygwyd gennym yn foddhaol o ran ein pedwar safon ansawdd achosion llys mewn perthynas ag 'ymatal'. Roedd y sgoriau ar gyfer ansawdd y gwaith ar ddiogelwch a llesiant plant a'r risg o niwed i eraill yn is. Mewn nifer sylweddol o achosion, mae ein harolygwyr yn dal i ganfod nad yw Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cydnabod digon o bryderon penodol am ddiogelwch plant unigol ac yn anghytuno â sgoriau asesiadau risg diogelwch a llesiant isel sy'n cael eu neilltuo gan reolwyr achos. Mae hyn yn golygu bod is-grŵp pwysig o blant yn colli allan ar gymorth a gwarchodaeth a allai fod yn fuddiol.

Er fy mod yn llwyr gefnogi egwyddorion 'plant yn gyntaf' dull cydweithredol o ymdrin â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, sy'n annog plant i gymryd rhan weithredol yn eu hasesiad a'u goruchwyliaeth, ac yn credu y dylid canolbwyntio ar ddatblygu cryfderau a hunaniaeth pro-gymdeithasol pob plentyn, rwy'n gynyddol amheus a yw'r awydd i gael swm bychan o ymyrraeth o fudd i'r plentyn nac i'r gymuned ehangach. Wrth i lwythi achosion y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid grebachu i ffracsiwn o'u maint 10 mlynedd yn ôl, mae ein harchwiliadau'n dangos bod gan y nifer fach o blant sy'n cael eu gadael arnynt yn aml amrwiaeth enfawr o anghenion cymhleth o ran eu lleferydd a'u dysgu a'u hiechyd meddyliol a chorfforol. Mae'r anghenion hyn yn aml heb eu nodi o'r blaen nes byddant yn cael eu sgrinio gan y gweithwyr arbenigol sydd wedi eu cysylltu â'r tîm Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid ac sydd angen llawer mwy na dim ond ychydig o ymyriadau. Gyda llawer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yn symud i gyfarwyddiaethau gwasanaethau plant eu

hawdurdodau lleol, maent mewn sefyllfa gynyddol dda i gysylltu plant a ddygir i mewn i'r system gyfiawnder â gwasanaethau cymorth eraill. Yn fy marn i, mae hyn yn mwy na gorbwyso effeithiau stigma posibl dod â phlentyn i lwyth achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid.

## Rheoli risg

Fel yn y blynyddoedd a fu, mae ein harolygiadau lleol yn dal i ddangos mai asesu a rheoli risgiau posibl o niwed i eraill, gan blant ar lwyth achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, yw'r meysydd perfformiad gwanaf ar gyfer achosion llys a rhai y tu allan i'r llys. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod achosion risg uwch yn cyfrif am gyfran sylweddol o lwyth achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid. Yn ein sampl a arolygwyd, er enghraifft, aseswyd bod bron i 80 y cant o blant a ddedfrydwyd i orchymyn llys yn peri rhyw fath o risg i eraill, ac ystyriwyd bod 29 y cant yn peri risg uchel neu uchel iawn o niwed. Troseddu treisgar yw'r categori troseddu mwyaf cyffredin o hyd ym mron pob llwyth achosion lleol a archwiliwn (troseddau treisgar oedd 49 y cant o'r achosion llys a arolygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf).

Mewn gwasanaethau a oedd yn gryf o ran rheoli risg, roedd rheolwyr achos yn casglu tystiolaeth at ei gilydd ar faterion ac ymddygiad cyfredol a hanesyddol, ac ar wybodaeth o ffynonellau eraill fel yr heddlu, gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg i feddwl am asesiadau a chynlluniau a oedd yn seiliedig ar gryfderau ac yn seiliedig ar wybodaeth dda. Fe wnaethant hefyd sicrhau eu bod yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol.

Nid oedd gwasanaethau gwannach yn defnyddio amrediad digon eang o wybodaeth ac nid oeddent yn ystyried patrymau ymddygiad plant na'r rheolaethau a'r ymyriadau yr oedd eu hangen i leihau'r risg o niwed. Roedd hyn yn golygu bod risgiau'n aml yn cael eu tanasesu a'u cam-ddosbarthu. Yn aml, canfu ein harchwiliadau nad oedd gwasanaethau yn nodi'n glir pwy oedd y dioddefwyr, sy'n golygu nad oedd cynlluniau i gadw dioddefwyr posibl yn ddiogel yn y dyfodol yn effeithiol. Roedd cynllunio wrth gefn ar gyfer newidiadau yn amgylchiadau plentyn yn arbennig o wan ac roedd mwy na chwarter ein hadroddiadau yn 2021 yn cynnwys argymhelliad i wella ei ansawdd.

## Datrysiadau y tu allan i'r llys

Mae llawer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yn dweud wrth ein harolygwyr fod eu gwaith gyda phlant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys bellach yn cyfrif am gyfran gynyddol o'u baich achosion. Yn dilyn pryderon blaenorol am ansawdd rhywfaint o'r gwaith hwn, yn enwedig ar gyfer gwarediadau anstatudol (a elwir hefyd yn 'ddulliau datrys yn y gymuned'), cyflwynwyd safon newydd gennym ym mis Gorffennaf 2021 i asesu ansawdd polisi a darpariaeth gwaredu y tu allan i'r llys. O'r wyth arolwg Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a gyhoeddwyd a oedd yn cynnwys y safon newydd hon, graddiwyd dwy ardal fel rhai 'Da', rhoddwyd sgôr 'Angen gwella' i bump ohonynt ac roedd un yn 'Annigonol'.

Roedd yr ardaloedd a berfformiodd yn dda mewn datrysiadau y tu allan i'r llys yn cynnal asesiadau trylwyr o'r plentyn, yn cynnwys y plentyn, ei deulu neu ei ofalwyr, ac yn ystyried materion yn ymwneud â dioddefwyr. Roedd yr asesiadau hyn yn cyfrannu at wneud penderfyniadau o safon uchel ar y paneli gwaredu aml-asiantaeth y tu allan i'r llys ac yn arwain at ymyriadau priodol gyda'r plentyn. Yn yr ardaloedd gwannaf, ni chafodd plant eu hasesu, ni chafodd y plentyn na'r teulu na'r gofalwyr eu cynnwys ac nid oedd gwybodaeth allweddol am y risgiau hysbys o niwed a bod yn agored i niwed ar gael i'r panel.

Mae ein data ar gyfer y 315 o achosion datrysiadau y tu allan i'r llys rydym wedi eu harchwilio ers fy adroddiad blynyddol diwethaf yn dangos bod ansawdd rheoli achosion plant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys yn well yn 2020/2021 nag yn y flwyddyn flaenorol. Ar y cyfan, roedd yr asesu, a'r gweithredu a'r cyflwyno'n cael eu gwneud yn dda yn y rhan

fwyaf o’r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid – er bod gwaith cynllunio ymyriadau’n llai effeithiol. Ac yn yr un modd ag achosion llys, roedd rheoli risg o niwed yn wannach ar y cyfan nag ar gyfer agweddau eraill ar oruchwylio achosion.

## Ansawdd gwaith Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid gyda grwpiau allweddol o blant

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi rhoi sylw arbennig i ansawdd y gwaith a wnaed gyda grwpiau penodol o blant lle rydym wedi nodi gwendidau yn y gorffennol. Mae pennod chwech yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddau o’r grwpiau penodol hyn: plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol (a elwir hefyd yn blant sydd â phrofiad o ofal), a bechgyn du a threftadaeth gymysg, y gwyddys eu bod yn cael eu cynrychioli’n anghymesur yn y system cyfiawnder ieuenctid, ac erbyn mis Mawrth 2021 a oedd yn cyfri am 43 y cant o’r boblogaeth o bobl ifanc mewn caethiwed.

Rydym wedi canolbwyntio’n benodol ar blant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth i ni gynyddu’r gwaith a wnawn o ran amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol. Ym mis Hydref 2021, fe wnaethom gyhoeddi arolwg thematig cenedlaethol mawr o’r modd y cynorthwyir ac y goruchwylio bechgyn du a threftadaeth gymysg ar draws naw gwasanaeth troseddau ieuenctid gwahanol yn Lloegr, a oedd yn cynnwys dadansoddiad manwl o 173 achos unigol a chyfweliadau â 38 o fechgyn.

Dywedodd y staff a’r rheolwyr y buom ni’n siarad â nhw wrthym fod y rhan fwyaf o fechgyn du a threftadaeth gymysg y buont yn gweithio gyda nhw wedi profi nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Roedd ganddynt hefyd lefelau uchel o angen fel anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anawsterau iechyd meddwl, nad oeddent bob amser wedi cael eu nodi na’u diwallu’n briodol nes iddynt ddod i gysylltiad â gwasanaeth. Roedd chwe deg y cant o’r bechgyn yn y sampl achosion a arolygwyd gennym wedi cael eu gwahardd o’r ysgol ar y pryd neu yn y gorffennol, y rhan fwyaf yn barhaol. Mewn hanner yr achosion a arolygwyd, cafwyd tystiolaeth bod y plentyn wedi profi gwahaniaethu ar sail hil.

Soniodd bron pob un o’r bechgyn du a chymysg y buom yn siarad â nhw am berthynas gadarnhaol gyda’u gweithwyr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, beth bynnag oedd ethnigrwydd y gweithiwr hwnnw, gan ddweud eu bod yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu deall. Ond nid oeddent bob amser yn glir ynghylch rôl y gwasanaeth na pha gymorth y gallai ei chynnig iddynt, ac nid oeddent ychwaith yn teimlo eu bod yn cael eu herio rhyw lawer gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ynghylch achosion sylfaenol eu troseddu.

Er gwaethaf y cysylltiadau cadarnhaol a nodwyd, gwelsom ddiffygion sylweddol yn ansawdd y gwaith achos a oedd yn cael ei ddarparu i fechgyn du a threftadaeth gymysg yn y cyfnod ar ôl y llys ac achosion y tu allan i’r llys. Yn gyffredinol, roedd llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym yn ddigonol o ran ansawdd yr asesu a’r cynllunio. Aseswyd hefyd bod adolygu gweithgarwch mewn perthynas â gwaith achos statudol yn ‘Annigonol’ ar gyfer plant sy’n destun gorchmynion llys, yn ogystal â gweithio ar y cyd ar gyfer datrysiadau y tu allan i’r llys.

## Casgliad

Er bod llwythi achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn lleihau, nid yw anghenion y plant sy’n dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol yn lleihau o gwbl, ac maent wedi mynd yn fwy difrifol o ganlyniad i bandemig Covid-19. Mae’r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd i’r plant, ond yr un mor heriol i staff ac arweinwyr gwasanaethau, gyda llawer ohonynt yn cyrraedd diwedd 2021 yn teimlo'n aml eu bod yn cael eu llethu’n emosiynol gan heriau personol a phroffesiynol ymdopi yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, dylai’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gael ei galonogi gan ein sgoriau a’r cadernid a’r ymrwymiad maent wedi ei ddangos i ddiwallu anghenion y plant yn eu gofal, ac rwy’n rhoi


clod mawr iddynt am hynny, gan ein bod yn gobeithio y bydd cyfnodau llai heriol o'n blaenau.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

## 2. Ffeithiau am y Cyd-destun

**Llif plant drwy'r system cyfiawnder ieuenctid ar ddiwedd mis Mawrth 2021 (gwybodaeth a ddarperir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid)**




**Nodiadau ar y siart llif:**

*Ar hyn o bryd nid yw'n hysbys beth yw nifer y plant sy'n cael eu gwyro oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid yn ffurfiol drwy Ddatrysiadau Cymunedol (ffordd anffurfiol o ddelio â datrysiadau y tu allan i'r llys) neu gynlluniau fel Brysbennu.

**Nid yw gwybodaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 ar gael.

***Mae hyd cyfartalog dedfryd o gaethiwed yn cyfeirio at y cyfnod llawn mewn caethiwed a ddyfarnwyd (ar gyfer dedfrydau sydd â hyd penodol yn unig), nid dim ond y cyfnod sydd wedi cael ei dreulio mewn caethiwed go iawn.


# Ein harolygiadau ieuenctid 2020/2021

**Arolygiadau ieuenctid unigol ac ar y cyd**

Cafodd y gwasanaethau a ganlyn eu harolygu rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Chwefror 2022:

Roedd arolygiadau unigol yn cynnwys arolygwyr o Arolygiaeth Prawf EM yn unig. Arweiniwyd arolygiadau ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EM ynghyd â chydweithwyr o arolygiaethau iechyd, heddlu, addysg a gofal cymdeithasol.

| | |
|---|---|
| 1 | Abertawe |
| 2 | Plymouth |
| 3 | Hillingdon (cyhoeddiad yn yr arfaeth) |
| 4 | Wakefield |
| 5 | Tameside |
| 6 | Swydd Bedford |
| 7 | Harrow |
| 8 | Swydd Gaerlŷr |
| 9 | Swydd Gaer (ar y cyd) |
| 10 | Wirral |
| 11 | Kirklees |
| 12 | Caint |
| 13 | Hull |
| 14 | Blackpool (ar y cyd) |
| 15 | Merton |
| 16 | Milton Keynes |
| 17 | Wigan |
| 18 | Gogledd Tyneside |
| 19 | Brighton a Hove |
| 20 | Cernyw ac Ynysoedd Sili |
| 21 | Kensington a Chelsea |
| 22 | Torbay |
| 23 | Hartlepool |
| 24 | De Tyneside |
| 25 | Trafford |
| 26 | Stockton-on-Tees |
| 27 | Darlington |
| 28 | Kingston a Richmond |
| 29 | De Swydd Gaerloyw |
| 30 | Rotherham |
| 31 | Gogledd Gwlad yr Haf |
| 32 | Peterborough |
| 33 | Windsor a Maidenhead |



# Sgoriau archwilio 2020/2021

Mae pob System Cyfiawnder Ieuenctid yn cael sgôr gyffredinol ar raddfa pedwar pwynt: 'Rhagorol' ☆, 'Da' ●, 'Angen gwella' ● ac 'Annigonol' ●. Mae'r sgoriau o'r safonau unigol yn cael eu cyfuno i greu'r sgôr gyffredinol. Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei fandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn: 0–6 = 'Annigonol', 7–18 = 'Angen gwella', 19–30 = 'Da', 31–36 = 'Rhagorol'.

Mae ailsefydlu yn cael ei sgorio mewn arolygiadau o fis Gorffennaf 2021 ymlaen.

| | | | | Darpariaeth sefydliadol | | | | Datrysiadau yn y llys | | | | Datrysiadau y tu allan i'r llys | | | | Ailsefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth a archwiliwyd | Cyhoeddwyd | Sgôr gyfansawdd | Sgôr gyffredinol | 1.1 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 | 4.1 |
| Windsor a Maidenhead | 19/11/2020 | 23 | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Rhagorol | Angen gwella | Angen gwella | Rhagorol | |
| Peterborough | 26/11/2020 | 29 | Da | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | |
| Gogledd Gwlad yr Haf | 15/12/2020 | 26 | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | |
| Rotherham | 17/12/2020 | 11 | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Annigonol | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | |
| De Swydd Gaerloyw | 06/01/2021 | 31 | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Da | Rhagorol | |
| Kingston a Richmond | 07/01/2021 | 24 | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Annigonol | Annigonol | Da | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darlington | 05/02/2021 | 31 | ☆ | ☆ 🟢 ☆ 🟢 | 🟢 🟢 🟢 ☆ | ☆ ☆ ☆ ☆ | |
| Stockton-on-Tees | 05/02/2021 | 32 | ☆ | 🟢 ☆ ☆ ☆ | 🟢 🟢 ☆ ☆ | ☆ 🟢 ☆ ☆ | |
| Trafford | 09/02/2021 | 20 | 🟢 | 🟠 ☆ 🟢 🟢 | 🟠 🟠 ☆ ☆ | 🟠 🔴 🟠 🟠 | |
| De Tyneside | 23/02/2021 | 14 | 🟠 | 🟢 🟠 🟠 🟠 | ☆ 🟠 🟠 🟠 | 🟠 🔴 🟠 🟠 | |
| Hartlepool | 23/02/2021 | 26 | 🟢 | 🟠 🟢 🟠 🟢 | ☆ 🟢 🟠 🟢 | ☆ ☆ 🟢 ☆ | |
| Torbay | 03/03/2021 | 16 | 🟠 | 🔴 🟠 🟢 🟠 | ☆ ☆ ☆ ☆ | 🔴 🔴 🔴 🔴 | |
| Kensington a Chelsea | 09/03/2021 | 29 | 🟢 | ☆ ☆ ☆ ☆ | 🟠 🟢 ☆ ☆ | 🟠 🟠 ☆ ☆ | |
| Cernyw ac Ynysoedd Sili | 11/03/2021 | 26 | 🟢 | 🟠 🟢 🟢 🟢 | ☆ 🟢 ☆ 🟢 | ☆ 🟠 ☆ 🟢 | |
| Brighton a Hove | 13/07/2021 | 36 | ☆ | ☆ ☆ ☆ ☆ | ☆ ☆ ☆ ☆ | ☆ ☆ ☆ ☆ | |
| Gogledd Tyneside | 29/07/2021 | 31 | ☆ | ☆ ☆ ☆ 🟢 | ☆ ☆ ☆ ☆ | 🟠 🟠 ☆ ☆ | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wigan | 03/08/2021 | 19 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | ☆ | ☆ | |
| Milton Keynes | 19/08/2021 | 23 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | |
| Merton | 26/08/2021 | 30 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | 🟠 | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | |
| Blackpool | 07/09/2021 | 25 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟢 | ☆ | |
| Hull | 16/09/2021 | 29 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | ☆ | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ | 🟢 | ☆ | ☆ | ☆ | |
| Caint | 05/10/2021 | 18 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | ☆ | ☆ | 🔴 | 🔴 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | |
| Kirklees | 12/10/2021 | 8 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🟢 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | |
| Wirral | 26/10/2021 | 23 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | ☆ | ☆ | ☆ | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 |
| Swydd Gaerlŷr | 02/12/2021 | 11 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 |
| Tameside | 07/12/2021 | 21 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | 🟠 | 🟠 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swydd Gaer | 08/12/2021 | 26 | 🟢 | ☆ | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | ☆ | ☆ | |
| Swydd Bedford | 09/12/2021 | 14 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🔴 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 |
| Harrow | 10/12/2021 | 17 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | ☆ | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | |
| Wakefield | 14/12/2022 | 10 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🔴 | 🟠 | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🟠 | 🟠 | 🟢 |
| Plymouth | 04/02/2022 | 24 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🟠 | ☆ | ☆ | 🟢 | 🟠 | 🟢 | 🟢 | 🟢 |
| Abertawe | 15/02/2022 | 14 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟠 | 🟢 | 🟠 | 🟢 | ☆ | 🔴 | 🔴 | 🔴 | 🟠 | 🟠 |

# 3. Her barhaus Covid-19

Ers dechrau Covid-19, mae Arolygiaeth Prawf EM wedi monitro effaith y pandemig ar wasanaethau troseddau ieuenctid yn ofalus ac mae'n parhau i wneud hynny.

O fis Mawrth 2020 ymlaen, arweiniodd y pandemig at newidiadau sylweddol yn y ffordd roedd yn ofynnol i Wasanaethau Troseddau Ieuenctid ddarparu gwasanaethau i blant.

Yn 2020, fe wnaethom gynnal arolwg thematig, a oedd yn edrych ar effaith Covid-19 ar wasanaethau troseddau ieuenctid. Fe wnaethom gynnal grwpiau ffocws ac asesu Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid o bell, gan edrych ar achosion unigol. Canfu'r arolygwyr:

- Roedd Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn ymroddedig – gan weithio'n hyblyg i ymateb i effaith Covid-19
- roeddent wedi rheoli'r cydbwysedd yn effeithiol rhwng ymateb i risgiau ac anghenion plant a theuluoedd a chadw staff yn ddiogel
- roedd y gwaith cynllunio parhad busnes cychwynnol yn effeithiol , gyda'r ffaith eu bod wedi eu cynllunio i ddiwallu anghenion lleol ac wedi eu cydlynu gyda strwythurau cynllunio a gorchymyn awdurdodau lleol o gymorth yn hynny o beth
- wrth i'r sefyllfa newid, adolygwyd ac addaswyd modelau gweithredu yn gyflym
- er gwaethaf rhywfaint o amrywiaeth yn y gwasanaethau a ddarparwyd, symudodd y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn gyflym i fodelau darparu wedi eu haddasu, gan wneud eu gwaith yn wahanol ac, mewn rhai achosion, yn arloesol
- bod partneriaethau wedi cael eu cynnal ar lefel strategol a gweithredol
- bod staff a rheolwyr wedi ymateb i'r her, gan weithio gydag ymroddiad ac ymrwymiad i gadw eu plant agored i niwed mor ddiogel â phosib.

**Sut mae gwasanaethau troseddau ieuenctid nawr yn edrych ar ddechrau 2022?**

Er mwyn mesur effaith Covid-19 yn fwy diweddar, edrych ar y gwersi a ddysgwyd, a derbyn barn rheolwyr Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid ynghylch sut beth fydd cyfiawnder ieuenctid yn y dyfodol, yn ddiweddar siaradodd y Prif Arolygydd, Justin Russell, a Phennaeth Rhaglen Arolygu Ieuenctid yr Arolygiaeth, Andrea Brazier, ag arweinwyr o amrywiaeth o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid a wirfoddolodd i gymryd rhan. Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd yn cynnwys Coventry, Cumbria, Derby, Essex, Hampshire, Ynys Wyth, Islington, Caint, Manceinion, Newcastle, Norfolk, Gwlad yr Haf, De Tees, Stoke-on-Trent, Southwark, Gorllewin Berkshire).

Rydym yn diolch i'r rhai a gymerodd ran am eu cyfrifon gonest ac agored ac yn gofyn i'r darllenwyr nodi nad oedd y cyfweliadau hyn yn rhan o'n rhaglen arolygu graidd nac yn rhan o unrhyw arolygiad thematig ffurfiol. Mae'r safbwyntiau a gynrychiolir yn oddrychol ac yn adlewyrchu profiadau unigol.

**A yw gwasanaethau troseddau ieuenctid yn gwella ar ôl Covid-19?**

Roedd agweddau cadarnhaol y rhai a oedd yn arwain y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'u cymhelliant parhaus i sicrhau arweiniad priodol i'w gwasanaethau a'u cefnogaeth i blant dan eu goruchwyliaeth wedi gwneud argraff arnom. Mae heriau Covid-19 wedi bod yn anodd eu rhagweld; mae staff rheng flaen wedi blino, ond mae'r gwasanaeth wedi

parhau i gael ei ddarparu, ac mewn sawl ardal mae cyfleoedd ar gyfer arloesi a datblygu wedi cael eu nodi a'u datblygu.

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i wasanaethau lle mae staff wedi marw o ganlyniad i Covid-19 ac yn cydnabod yr effaith sylweddol mae hyn wedi ei chael ar les ymarferwyr a thu hwnt.

Mae adferiad, yn ddealladwy, wedi cael ei lesteirio gan effaith cyfyngiadau pellach ar y pandemig, a barhaodd i mewn i 2022. Ni allwn fod yn sicr o hyd a fydd dychwelyd i ffyrdd 'normal' –
fel roedd pethau cyn y pandemig – o weithio bob amser yn bosibl i Wasanaethau Troseddau Ieuenctid. Mae rhai wedi eu cyfyngu o ran mynediad i'w swyddfeydd arferol, ac eraill wedi gorfod derbyn ymyriadau amgen er mwyn cadw mewn cysylltiad â phlant.

Mae datblygiadau newydd wedi dod i'r amlwg neu wedi cael eu hatgyfnerthu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – fel symud tuag at Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yn derbyn ymyriadau 'allan i'r plentyn', sy'n lleihau'r angen am gadw pellter cymdeithasol mewn swyddfeydd. A bu symudiad oddi wrth waith wyneb yn wyneb mewn grŵp gan ddefnyddio dull un-i-un sydd wedi ei deilwra'n llawer mwy personol.

Dywedodd uwch arweinwyr Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wrthym fod llwythi achosion yn is ar hyn o bryd, gan ganiatáu iddynt fuddsoddi mwy mewn gwaith atal. Ond mae'r rhai sydd dan eu goruchwyliaeth yn gynyddol yn achosion llys risg-uchel o niwed (29 y cant o'r achosion a arolygwyd gennym). Dywedodd rhai gwasanaethau, ers diwedd y cyfyngiadau symud diwethaf, fod mwy o blant yn eu carfan wedi bod yn ymwneud â thrais difrifol, gan gynnwys llofruddiaethau, ymgais i lofruddio, a niwed corfforol difrifol, nag o'r blaen (troseddau treisgar oedd yn cyfri am 49 y cant o'r achosion llys y buom yn edrych arnynt).

Nodwn fod cyfyngiadau Covid-19 wedi amrywio yn ôl rhanbarth dros y flwyddyn ddiwethaf, ac i Gymru mae'r profiad o brotocolau hirach a mwy cyfyngol hefyd wedi cael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau troseddau ieuenctid.

## Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Ar ddechrau cyfnod clo Covid-19 ym mis Mawrth 2020, gofynnodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i bob Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gynhyrchu cynlluniau wrth gefn yn nodi sut roeddent yn gweithio gyda phlant mewn gorsafoedd heddlu ac yn y gymuned, a sut roeddent yn cadw mewn cysylltiad â phlant.

Roedd y cynllunio parhad busnes cychwynnol yn effeithiol ac yn elwa drwy gael ei lunio'n lleol a'i gydlynu gyda strwythurau cynllunio a gorchymyn yr awdurdod lleol. Roedd y gallu i gynllunio gyda phartneriaid yn galluogi gwasanaethau i flaenoriaethu'r plant a oedd fwyaf agored i niwed ac a oedd yn peri'r risg fwyaf o niwed i eraill.

Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod gwaith cynllunio parhad effeithiol wedi parhau. Roedd yr uwch arweinwyr Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid y buom yn siarad â nhw yn teimlo eu bod nhw wedi dod i arfer ag addasu i fflwcs parhaus yn ystod cyfyngiadau'r pandemig. Roedd cyfarfodydd y bwrdd rheoli'n cael eu cynnal mewn ffordd hybrid: roedd gan rai gwasanaethau fynediad at swyddfeydd priodol o fewn adeiladau awdurdodau lleol, ac roedd eraill yn cwrdd ar-lein. Dywedodd rhai ardaloedd fod cyfarfodydd ar-lein wedi arwain at fwy o bresenoldeb, ac i lawer, mae'r pandemig wedi golygu bod ffocws partneriaethau ar gynorthwyo Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi cael ei flaenoriaethu. Mae hyn hefyd wedi rhoi cyfle i rai meysydd sicrhau mwy o sefydlogrwydd yn eu trefniadau llywodraethu.

Soniodd rhai, fel Tîm Troseddau Ieuenctid Stoke-on-Trent, am welliannau cadarnhaol ac annisgwyl ar draws eu bwrdd rheoli fel rhan o'u hymateb i'r pandemig:

Dywedodd Joy Molloy, Pennaeth y Gwasanaeth, wrthym: *"Rwy'n meddwl bod trefn lywodraethu'r bwrdd rheoli wedi gwella fwy na thebyg, gan ein bod ni wedi bod yn cynnal cyfarfodydd drwy Teams – sydd wedi hwyluso presenoldeb, ac rwy'n meddwl bod pobl wedi teimlo ei fod yn ddefnyddiol. Rydw i'n meddwl bod ein perthynas â'r heddlu, a oedd bob amser yn gryf, wedi cryfhau oherwydd eu bod wedi cynnal eu presenoldeb yn y swyddfa, ond hefyd oherwydd ein bod ni'n gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd yn ystod camau cyntaf y pandemig, felly doedd dim rhaid i blant gael eu casglu a'u cadw yn y celloedd dros nos."*

Gwelodd Andrew Kaiser, Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Tîm Troseddau Ieuenctid Derby, welliannau hefyd: *"Mae presenoldeb [ar fyrddau rheoli] yn dda iawn. Mae gennym y llysoedd, y timau diogelwch cymunedol – yr holl bartneriaid statudol, a phennaeth un o'r unedau cyfeirio disgyblion lleol yn ogystal â'r gwasanaeth gwirfoddol."*

## Swyddfeydd

Yn ôl ein *hadolygiad thematig o waith gwasanaethau troseddau ieuenctid yn ystod pandemig Covid-19* (Mai 2020), roedd staff yn gweithio'n hyblyg ac roeddent wedi addasu eu dulliau gweithio i ddarparu gwasanaethau. Mynegodd rhai staff bryder ynghylch gorfod dychwelyd i amgylchedd swyddfa. Gweithiodd rheolwyr yn y gwasanaethau troseddwyr ifanc yn dda gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau i baratoi ar gyfer lefelau uchel o absenoldeb ac adleoli staff.

Erbyn diwedd 2021 roedd y gwasanaethau ym mhob ardal y buom yn siarad â nhw yn dweud wrthym fod staff yn dychwelyd i'r swyddfeydd. Fodd bynnag, roedd y cyfrannau a'r amlder yn amrywio, gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau'n gweithredu trefniant rota i fodloni cyfyngiadau capasiti sy'n gysylltiedig â Covid-19. Roedd rhai gwasanaethau'n dal i gael trafferth cael staff yn ôl i'r swyddfa oherwydd y cyfyngiadau difrifol ar y defnydd a wneir o'r swyddfa gan eu hawdurdod lleol. Dywedodd un gwasanaeth, er enghraifft, mai dim ond tair desg a ddyrannwyd iddynt ar gyfer 28 aelod o staff ym mhrif adeilad y cyngor a bod eu hystafelloedd cyfweld pwrpasol ar gyfer cyfarfodydd gyda phlant wedi eu troi'n ystafelloedd cyfarfod corfforaethol.

I'r gwrthwyneb, dywedodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Gorllewin Berkshire wrthym eu bod wedi cyflwyno achos dros gyswllt wyneb yn wyneb â phlant yn gynnar yn ystod Covid-19 a'u bod wedi gallu cadw mynediad llawn i'w swyddfeydd yn ystod y pandemig. Eu barn nhw oedd bod hyn wedi atal nifer o blant o dan eu goruchwyliaeth rhag aildroseddu, ac mewn rhai achosion wedi eu helpu i atal gorfod mynd â phlant i'r ddalfa - er enghraifft, drwy allu parhau i gynnig ymyriadau Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys yn y gymuned fel dewis arall.

## Cymorth i staff

Roedd rhai Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi trefnu sesiynau goruchwylio wyneb yn wyneb rhwng rheolwyr a staff ac wedi nodi mai hwn oedd y dewis a ffafrir, ond roedd eraill wedi parhau i gynnal cyfarfodydd dros y we i gadw at gyfyngiadau Covid-19 ac osgoi teithio diangen. Roedd teimlad cyffredinol gan wasanaethau bod dychwelyd at rai trafodaethau goruchwylio wyneb yn wyneb gyda staff wedi gwella eu hiechyd meddwl a'u morâl cyffredinol.

Un o'r pethau a ddaeth i'r amlwg yn ein sgyrsiau ag uwch arweinwyr oedd lefel y blinder Covid-19 ymysg staff. Dywedodd bron pob un o'r gwasanaethau fod heriau'r pandemig yn effeithio ar eu staff, ynghyd â chynnal y gwasanaeth a rheoli eu llwyth achosion – yn enwedig wrth ddelio â phlant a oedd yn wynebu risg uchel o niwed, yn agored i niwed a lefel eu hanghenion yn gymhleth.

Dywedodd Lise Bird, Pennaeth Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Gwlad yr Haf: *"Rwy'n ffodus o gael seicolegydd fforensig da iawn ar y staff, sydd hefyd yn gynrychiolydd iechyd. Fe wnaeth [y swyddog] gwblhau gwaith ar sesiynau tosturi i staff – a helpodd hynny i roi digon o gymorth a chymhelliant i staff."*

Dywedodd Jane Bennett, Pennaeth Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Islington wrthym: *"Mae cymorth clinigol wedi cael ei ddarparu ar sail un-i-un, gyda goruchwyliaeth glinigol fisol ar gyfer rheolwyr achos – ar-lein yn bennaf. Mae gan [staff] reolwr dyletswydd a gweithiwr achos ar ddyletswydd yn y swyddfa bob amser, ac arhosodd y swyddfa yn agored drwy'r pandemig."*

Eglurodd Tanya Gillett, Pennaeth Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Essex, eu bod o'r farn ei bod yn bwysig bod goruchwyliaeth staff yn parhau'n fewnol drwy gydol y pandemig fel *"blaenoriaeth rheng flaen"* iddynt, gan eu bod eisiau sicrhau bod staff yn cael goruchwyliaeth wyneb yn wyneb ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Cynhaliwyd cyfarfodydd grŵp staff wyneb yn wyneb hefyd lle bynnag y bu modd.

Ym Manceinion, dywedodd y Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid, Marie McLaughlin, eu bod hefyd wedi cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar staff i fynd i'r afael â goblygiadau lles darparu gwasanaeth rheng flaen yn ystod y pandemig: *"Rydyn ni wedi mynd ar drywydd sgwrs gyda Chanolfan Cydnerthedd GIG Manceinion Fwyaf, a sefydlwyd ar ôl bomio Arena Manceinion. Mae bellach wedi ei ehangu i gynnwys gofal cymdeithasol a phob gweithiwr proffesiynol, felly [rydyn ni eisiau] cwrdd â nhw a siarad am yr hyn rydyn ni'n ei weld yn ein gwasanaeth."*

Dywedodd rhai gwasanaethau wrthym fod eu staff yn gadael oherwydd effaith Covid-19. Yn ddiddorol, mae'n ymddangos hefyd bod newid o genhedlaeth i genhedlaeth mewn gwasanaethau nad yw o reidrwydd yn ganlyniad yn llwyr i Covid-19. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod llawer o'r rhai a oedd yn rhan o sefydlu gwasanaethau troseddau ieuenctid modern 20 mlynedd yn ôl yn ymddeol erbyn hyn. O'r herwydd, mae pryder gan rai y gallai hyn leihau lefel yr wybodaeth a'r profiad o ran cyfiawnder ieuenctid mewn gwasanaethau.

## Partneriaethau a gwasanaethau

Roedd meysydd pwysig o weithio mewn partneriaeth – cyfarfodydd, cynadleddau achos, byrddau rheoli a phaneli gorchmynion atgyfeirio – yn dal i gael eu cynnal ar-lein yn 2022. Barn llawer o'r gwasanaethau y buom yn siarad â nhw oedd bod hyn yn debygol o barhau am beth amser, er bod ymdrechion wedi bod i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn rhai ardaloedd a bod llawer o ardaloedd wedi bwriadu dychwelyd i baneli gorchmynion cyfeirio wyneb yn wyneb.

Soniodd nifer o wasanaethau am bwysigrwydd cyfarfodydd panel gorchmynion cyfeirio ar-lein (lle penderfynir pa fath o wasanaethau sydd eu hangen ar blentyn) yn ystod y pandemig, a sut roeddent yn helpu i gynnal presenoldeb. Roedd modd i aelodau hŷn neu agored i niwed o'r panel, llawer ohonynt yn wirfoddolwyr, warchod eu hunain wrth barhau i fynd i'r cyfarfodydd hanfodol hyn. Datblygodd rhai ardaloedd gyfarfod panel gorchmynion atgyfeirio cyfunol, lle'r ymunodd rhai aelodau'n rhithiol tra'r oedd ymarferwyr yn mynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn lleoliad gyda phlant a rhieni. Mae newidiadau o'r fath wedi galluogi paneli i barhau i redeg a rhoi hwb i'w presenoldeb, yn ogystal ag ystyried anghenion plant.

O ran y gwasanaethau a gynigiwyd gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid, dangosodd ein canfyddiadau ym mis Mai 2020 fod cyswllt wyneb yn wyneb wedi cael ei gynnal, yn aml yn yr awyr agored, i blant a oedd yn peri'r risg fwyaf i eraill. Roedd ymatebion plant i'r pandemig yn perthyn yn fras i ddau grŵp – roedd rhai yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau ac yn

defnyddio'r amser i fyfyrio ar eu dyfodol, ond roedd llawer yn cael trafferth gyda'r cyfyngiadau symud, ac roedd Covid-19 wedi dwysáu eu hanghenion ac wedi achosi trawma ychwanegol. Yn anffodus, daeth darlun tebyg i'r amlwg yn 2022, gyda rhai gwasanaethau'n poeni nad oedd y plant hynny a oedd eisoes wedi ymddieithrio cyn y pandemig wedi ymgysylltu eto.

Mae'n ymddangos bod hyn wedi cael effaith ganlyniadol ar wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Dywedodd gwasanaethau, hyd yn oed gyda gwell mynediad at dechnoleg – fel gliniaduron a mynediad i'r rhyngrwyd – nad oedd rhai plant yn ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o hyd. Yn achos rhai gwasanaethau, cafodd y sefyllfa hon ei llesteirio ymhellach gan gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, gyda staff yn methu â chludo plant i sesiynau hyfforddiant cyflogaeth a chyfweliadau swydd fel y gwnaethant o'r blaen. Mynegodd y gwasanaethau hefyd bryder nad oedd modd i rai plant hŷn sy'n gymwys i wneud cais am swyddi ar lefel mynediad gael cyflogaeth ystyrlon gan fod gwasanaethau lletygarwch wedi cael eu gorfodi i gau neu leihau capasiti yn ystod y cyfyngiadau symud neu oherwydd cyfyngiadau'r pandemig.

Rydym yn dal i boeni am sut mae anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu, yn enwedig ar gyfer y plant hynny y mae'r pandemig yn effeithio'n sylweddol arnynt. Rydyn ni eisiau bod yn dawel ein meddwl bod gwasanaethau'n gwneud popeth o fewn eu gallu i nodi'r plant hynny sydd wedi ymddieithrio, neu sydd wedi mynd ar ei hôl hi yn ystod y cyfyngiadau symud a chyfnodau o wersi gartref/rhith wersi, i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu blaenoriaethu, a bod unrhyw effaith niweidiol colli addysg yn cael eu lleihau lle bynnag y bo modd.

Dangosodd uwch arweinwyr lawer o benderfyniad i ddarparu cyswllt wyneb yn wyneb yn hytrach na chyswllt o bell â phlant. Dywedodd yr holl wasanaethau wrthym eu bod wedi blaenoriaethu dychwelyd at wasanaethau wyneb yn wyneb gyda phlant cyn gynted ag y gallent. Mewn rhai gwasanaethau, roedd hyn wedi cyflymu tueddiad presennol tuag at fynd â'u gwasanaethau 'allan i'r plentyn', drwy gwrdd â phlant yn y gymuned neu yn eu cartrefi yn hytrach na disgwyl iddynt ddod i apwyntiadau yn y swyddfa.

Yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Coventry, dywedodd Nick Jeffries wrthym: *"Roeddem wedi symud i fodel o 'fynd â'r gwasanaeth at y plant' cyn y pandemig – ond cafodd hyn ei gyflymu. Rydym hefyd wedi symud oddi wrth ddarparu rhaglenni mewn grŵp – lle'r oeddem yn cydnabod bod hyn ynddo'i hun yn creu rhwydweithiau di-fudd a risgiau cysylltiedig."*

Dywedodd Dave Wrauight, Rheolwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Gorllewin Berkshire wrthym: *"Yn y bôn, fe wnaethon ni sicrhau ein bod ni'n gweld pawb wyneb yn wyneb, er bod cyfradd hynny wedi ei lleihau. Byddem yn dal i gadw mewn cysylltiad wythnosol, ond efallai y byddem yn eu gweld wyneb yn wyneb unwaith y mis... Gwnaethom lawer o apwyntiadau mewn gerddi, apwyntiadau galw heibio yn y car, apwyntiadau wrth gerdded. Unrhyw beth a oedd yn gwneud y sefyllfa'n ddiogel. Mae ein mesurau Covid wedi gweithio'n effeithiol iawn, ac nid ydynt wedi ein rhwystro rhag gweld pobl."*

Fodd bynnag, ni ellid gweld pob plentyn allan yn y gymuned. Roedd apwyntiadau swyddfa yn dal i fod yn bwysig ar gyfer trafodaethau sensitif neu gyfrinachol, neu ar gyfer plant yr ystyrir eu bod yn peri risg uchel o niwed, ac ar gyfer plant hŷn a oedd yn symud ymlaen yn fuan i oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf, fel eu bod yn arfer â strwythur apwyntiadau ac ymyriadau wedi eu trefnu gan y swyddfa.

## Effeithiau eraill Covid-19

Dywedodd Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid Newcastle, Gary Bell, wrthym fod cynlluniau a sefydlwyd yn 2019 wedi eu helpu i reoli trais rhwng plant a rhieni, a gynyddodd yn ystod y

pandemig: *"Cytunwyd ar broses newydd gyda'r heddlu i fonitro hyn ddiwedd 2019 er mwyn tynnu sylw at ymosodiadau/digwyddiadau gan blant yn eu harddegau ar rieni. Mae cefnogaeth well ar gael i rieni erbyn hyn, gan gynnwys swyddog magu plant sydd wedi bod yn y swydd ers dechrau 2020. Mae chwe Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yng ngogledd-ddwyrain Lloegr hefyd wedi gwneud cais ar y cyd am arian cronfa waddol ieuenctid ar gyfer tîm o weithwyr magu plant."*

Roedd gwasanaethau iechyd meddwl i blant yn dal i fod yn ddarlun cymysg. Ni roddodd gwasanaethau gyda darpariaeth fewnol wybod am faterion o bwys. Ond, i'r rhai sy'n ddibynnol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) allanol, roedd pryder nad oedd y gwasanaethau hyn yn rhannu ymrwymiad y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid i gynnal ymweliadau wyneb yn wyneb, a mynegodd rhai siom ynghylch y rhestrau aros hir ar gyfer triniaeth. Er na allwn roi sylwadau'n uniongyrchol ar ddarpariaeth CAMHS, rydym yn cydnabod bod hwn yn faes sy'n peri pryder i Wasanaethau Troseddau Ieuenctid a byddwn yn parhau i asesu ei effaith yn ystod ein harolygiadau.

## Achosion llys ac oedi cyn cyrraedd y llys

Er bod y penaethiaid gwasanaeth roeddem wedi siarad â nhw'n teimlo'n bennaf bod yr oedi mewn llysoedd ynadon ieuenctid wedi dychwelyd i'r lefelau arferol erbyn diwedd 2021, gyda chymorth gostyngiad mewn llifau gwaith yn ystod y pandemig, roedd plant a oedd yn aros am ymddangosiadau yn Llys y Goron yn wynebu oedi hir.

Dywedodd Tanya Gillet, Pennaeth Troseddau Ieuenctid yn Essex: *"Rydyn ni hefyd wedi gweld oedi mawr iawn o ran achosion yn cyrraedd y llys. Felly, rydyn ni nawr yn cael rhai achosion sydd wedi aros am ddwy flynedd i gyrraedd y llys. Ac mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn 18 oed erbyn hyn."*

Pryder arall oedd nifer y plant a ryddhawyd dan Ymchwiliad (RUI) gan yr heddlu nes ceir cyhuddiad ac achosion ffurfiol. Dywedodd rhai gwasanaethau eu bod yn gweld plant yn cael eu rhyddhau dan ymchwiliad am gyfnodau hir, yn ogystal â rhoi mwy nag un rhyddhad dan ymchwiliad i'w plant. Roeddent yn cwestiynu pa mor briodol oedd hyn a dywedasant ei fod yn groes i egwyddorion cyfiawnder cyflym i blant a dioddefwyr. Nid yw'n ymddangos bod gwybodaeth am hyd a nifer y achosion o ryddhau dan ymchwiliad ar gael fel mater o drefn ac awgrymwn fod hwn yn faes y mae angen ei adolygu a'i flaenoriaethu.

Dywedodd gwasanaethau hefyd fod mynediad rheolwyr achos at blant yn y ddalfa yn ôl i'r arfer, er bod angen aros i weld a oedd amrywiolyn Omicron o Covid-19 wedi effeithio ar hyn.


## Y dyfodol


Fel sy'n wir am yr holl wasanaethau rheng flaen yng Nghymru a Lloegr, mae'n anodd rhagweld effaith Covid-19. Yr hyn a ddysgom o'n sgyrsiau gydag uwch arweinwyr y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yw bod yr hyder wrth ddelio ag amgylchedd cyfiawnder ieuenctid sy'n newid yn gyson wedi gwella a'u bod yn teimlo'n fwy parod i ddelio â sefyllfaoedd gwahanol. Mae gwasanaethau wedi croesawu arloesi, wedi gofyn cwestiynau am eu darpariaeth, ac wedi addasu eu gwasanaeth er budd plant dan eu goruchwyliaeth, dioddefwyr a'r gymuned leol. Mewn nifer o'n trafodaethau gyda gwasanaethau, roedd gwir ymdeimlad o obaith a balchder, yn enwedig o ran sut roedd gwasanaethau wedi addasu, sut roedd staff a phlant wedi ymateb, a'r creadigrwydd a oedd wedi galluogi gwasanaethau i barhau i ddarparu ymyriadau.

## 4. Ein sgoriau ar gyfer 2020/2021 – trefnu a darparu gwasanaethau troseddau ieuenctid

Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Chwefror 2022, bu Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu 33 o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid lleol. Mae'r siartiau yn ffigur un yn dangos dosbarthiad y sgoriau arolygu cyffredinol, gan gymharu 2019/2020 â 2020/2021. Oherwydd y newid yn ein safonau ym mis Gorffennaf 2021, mae data 2020/2021 yn aml yn cael ei rannu rhwng arolygiadau a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwn (y rhan fwyaf o'r arolygiadau sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn), a'r rhai ar ôl mis Gorffennaf 2021. Er gwaethaf heriau sylweddol iawn pandemig Covid-19, roedd yn braf gweld bod dwy ran o dair o'r gwasanaethau a arolygwyd ers mis Tachwedd 2020 wedi cael sgôr gyffredinol o 'Da' neu 'Rhagorol', a dim un barn gyffredinol o 'Annigonol'.

**Ffigur 1: Dosbarthiad y sgoriau cyffredinol yn 2019/2020 (chwith) a 2020/2021 (dde)**



Nodwyd bod pum gwasanaeth (15 y cant) yn 'Rhagorol', gan gynnwys Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Brighton a Hove a gafodd sgôr 'Rhagorol' ar gyfer pob un o'r 12 o'n safonau ansawdd. Roedd yn arbennig o braf gweld y gwelliant yn rhai o'r gwasanaethau rydym wedi eu graddio o'r blaen fel rhai 'Annigonol', gan gynnwys Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Blackpool – sydd bellach yn cael ei ystyried yn wasanaeth 'Da'.

**Astudiaeth achos: Hwb i Blackpool**

Yn 2018, cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Blackpool sgôr 'Annigonol'. Lai na thair blynedd yn ddiweddarach, yn dilyn arolygiad ar y cyd o'r gwasanaeth ym mis Mai a mis Mehefin 2021 – a gynhaliwyd gyda'n partneriaid o faes plismona, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg – dyfarnwyd sgôr 'Da' iddynt yn gyffredinol.

Canfu ein hailarolygiad fod y gwasanaeth wedi cael ei ad-drefnu'n sylweddol – roedd bellach wedi ei drefnu'n dda, roedd yn gwneud gwaith craffu effeithiol ac roedd ganddo gyfarwyddyd clir. Roedd hyn wedi arwain at waith o ansawdd da ym mhob ardal ac roedd yn gyflawniad sylweddol i'r dref.

Nododd arolygwyr welliannau sylweddol mewn meysydd allweddol - er enghraifft, y berthynas rhwng staff, plant dan oruchwyliaeth a'u rhieni/gofalwyr. Yn ogystal, roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Blackpool wedi ailgadarnhau partneriaethau gyda'r heddlu, ac wedi sicrhau gwell mynediad i blant at wasanaethau iechyd meddwl. Roedd cynllunio clir ar gyfer pob plentyn, dadansoddiad cywir o'u risg o niwed, a ffocws ar gael plant i addysg neu hyfforddiant galwedigaethol.


Fe wnaethom sgorio meysydd penodol o waith Blackpool fel rhai 'Rhagorol' – cyflawniad sylweddol ers 2018. Roedd y gwaith hwn wedi arwain at newid go iawn i blant dan ei oruchwyliaeth ac wedi lleihau eu siawns o aildroseddu.

## Trefnu a darparu gwasanaethau troseddau ieuenctid

Yn sail i'r sgoriau cadarnhaol cyffredinol hyn roedd rhai gwelliannau yn rhai o'n safonau.

Rydym yn archwilio pedair agwedd ar ddarpariaeth sefydliadol wrth arolygu gwasanaethau troseddau ieuenctid.


**Ffigur 2: Parth un - safonau ieuenctid (llywodraethu ac arweinyddiaeth, partneriaethau a gwasanaethau).**




Nid yw ein safonau ar gyfer darparu sefydliadol wedi newid ers blynyddoedd blaenorol ac felly gellir gwneud cymariaethau uniongyrchol. Mae Ffigur 3 yn cymharu'r sgôr gyfartalog ar

gyfer yr holl Wasanaethau Troseddau Ieuenctid sy'n cael ei arolygu ar draws pob parth, gan gymharu 2020/2021 â 2019/2020. At ei gilydd, mae gwelliant bach wedi bod ar draws y safonau parth un yn y 33 Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a arolygwyd yn 2020/2021.

**Ffigur 3. Sgoriau cyflawniad sefydliadol cyfartalog ar gyfer Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a arolygwyd yn 2020/2021**




## Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Yn y cyfnod sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn, rydym wedi rhoi sgôr 'Rhagorol' i chwe gwasanaeth am llywodraethu ac arweinyddiaeth, a sgôr 'Da' i 10 arall. Roedd hyn tua hanner y gwasanaethau a arolygwyd gennym ac mae'n golygu bod yr hanner arall wedi cael sgôr 'Angen gwella' neu 'Annigonol'. Mae hyn yn welliant ar y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a arolygwyd y flwyddyn flaenorol, lle'r oedd 38 y cant yn 'Rhagorol' neu'n 'Dda' a 62 y cant 'Angen gwella' neu'n 'Annigonol'.

Wrth asesu ansawdd llywodraethu ac arweinyddiaeth, rydym yn ystyried tair elfen: gweledigaeth a strategaeth, trefniadau partneriaeth sy'n ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol, ac arweinyddiaeth i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol.

Dylai fod gan bob Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fwrdd rheoli ar waith. Dylai'r cadeirydd fod yn uwch swyddog o un o'r asiantaethau partner ac yn aml bydd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol. Dylai'r bwrdd gynnwys aelodau sydd â digon o gyfrifoldeb i gynrychioli eu hasiantaeth yn effeithiol.

Nodweddion y byrddau rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hynny yr aseswyd eu bod yn gweithio'n dda yw eu bod yn dangos gweledigaeth a strategaeth ac yn glir ynghylch diben y bwrdd. Maent yn monitro perfformiad o ran dangosyddion cyfiawnder ieuenctid cenedlaethol ac yn datblygu ac yn monitro eu dangosyddion eu hunain ar sail blaenoriaethau a materion lleol. Caiff perfformiad ei fonitro drwy ddata meintiol yn ogystal â gwybodaeth ansoddol fel archwiliadau achos. Mae byrddau sy'n gweithredu'n dda yn deall tueddiadau lleol mewn troseddau ieuenctid ac anghenion a phroffiliau plant sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Pan fydd materion yn codi, yn lleol ac yn genedlaethol, dylai'r bwrdd weithredu i ymchwilio. Gall y rhain gynnwys materion fel anghymesuredd, llinellau cyffuriau neu droseddau gyda chyllyll. Mae angen i aelodaeth y Bwrdd gynrychioli'r amrywiaeth lawn o bartneriaid a

dangos ymrwymiad cadarn i gydweithio. Rhaid i Gadeiryddion fod â dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu ac ymdrechu i wella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae angen i aelodau'r bwrdd sicrhau eu bod yn weladwy i staff y rheng flaen a bod staff yn deall ac yn ymwybodol o bwrpas a gweithgareddau'r bwrdd.

Mewn ardaloedd lle'r oedd diffygion yng ngweledigaeth a strategaeth y bwrdd, gwelsom set debyg o ffactorau fel arfer. Yn aml nid oedd y bwrdd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau fel y cynllun cyfiawnder ieuenctid neu'r cynllun ar gyfer cadernid y pandemig, ac roedd diffyg cysylltedd rhwng y bwrdd a'r ddarpariaeth weithredol. Mewn ardaloedd o'r fath, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym nad oeddent yn ymwybodol o weithgareddau'r bwrdd a theimlent nad oedd cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu cyfleu'n dda. Nid oedd trefniadau llywodraethu'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio ar gyfiawnder ieuenctid ac nid oeddent yn cydnabod y risgiau penodol sy'n gysylltiedig â phlant sy'n troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu. Yn aml nid oedd aelodau'r Bwrdd ar y lefel briodol i hwyluso gwelliannau ac eiriol dros y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac nid oeddent yn rhagweithiol wrth sicrhau newid yn eu gwasanaethau eu hunain i sicrhau bod anghenion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cael eu diwallu. Nid oedd prosesau cynefino ar gyfer aelodau newydd o'r bwrdd wedi eu sefydlu ac roedd hyn yn golygu nad oedd aelodau'r bwrdd yn glir ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Er ein bod ni'n cydnabod y bydd trosiant aelodau'r bwrdd yn anochel, dylid sicrhau cyn lleied â phosibl o gynrychiolwyr o asiantaethau, ac yn ddelfrydol dylai cynrychiolwyr newydd o asiantaethau orgyffwrdd â'u rhagflaenwyr. Er mwyn i fyrddau weithredu'n effeithiol, mae angen i aelodau newydd o'r bwrdd ddilyn proses gynefino i sicrhau eu bod yn deall eu rôl eu hunain a swyddogaethau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Fe wnaethom ganfod bylchau sylweddol yn y presenoldeb ar fyrddau Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, ac rydyn ni wedi gwneud argymhellion ynghylch aelodaeth a phresenoldeb mewn tua chwarter yr arolygiadau ers mis Tachwedd 2020. Yn benodol, roedd y rhan fwyaf o fyrddau Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi symud i gyfarfodydd ar-lein o ganlyniad i'r pandemig, a dywedodd llawer o ardaloedd wrthym ei bod mewn gwirionedd yn haws i aelodau fod yn bresennol gan nad oedd yn rhaid iddynt ystyried amser teithio. Gan hynny, roedd yn destun pryder arbennig pan ddaethom o hyd i fylchau ac absenoldebau o hyd. Dylai aelodau roi blaenoriaeth i gyfarfodydd bwrdd a cholli cyn lleied â phosib o gyfarfodydd.

Drwy gydol ein harolygiadau, rydym wedi canfod bod angen i drefniadau partneriaeth effeithiol fod ar waith i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n llwyddiannus. Dylai aelodau'r Bwrdd ddeall, ac eiriol gyda'u hasiantaethau eu hunain, anghenion plant sydd wedi troseddu a sicrhau bod gwaith y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn eu cynorthwyo. Dylent bennu cyfeiriad clir ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid maent yn ei hyrwyddo, gan fonitro perfformiad a sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Yn ein Bwletin Ymchwil a Dadansoddi (Medi 2021) *The quality of delivery of out-of-court disposals in youth justice* , gwelsom fod y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid sy'n perfformio orau yn tueddu i feddu ar fframweithiau cadarn ar gyfer rheoli datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd y staff yn deall eu rolau a rolau eu partneriaid a lle'r oedd cyfathrebu rhyngasiantaethol yn gryf. Roedd aelodaeth y Bwrdd yn ddigon amrywiol, gydag aelodau bwrdd medrus ac ymrwymedig o asiantaethau allweddol yn gallu hwyluso gwaith aml-asiantaeth effeithiol. Ar y llaw arall, ar draws y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid hynny a gafodd sgoriau isel yn y maes hwn neu y barnwyd eu bod 'Angen gwella', roedd fframwaith rhy gymhleth neu un nad oedd yn cael ei ddeall yn dda gyfer rheoli datrysiadau y tu allan i'r llys yn arwain at waith diffygiol rhwng asiantaethau. Lle'r oedd gan asiantaethau (fel iechyd neu addysg) gynrychiolaeth wael ar y bwrdd, yn aml nid oedd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n ddigonol i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Dibynnwyd gormod ar rai

byrddau rheoli o ran y tri dangosydd perfformiad safonol (y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf, y rhai sy'n defnyddio'r ddalfa a chyfraddau aildroseddu), sy'n golygu nad oes ganddynt ddealltwriaeth fanwl o berfformiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

**Enghraifft o ymarfer da**

Sefydlwyd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Plymouth ym mis Chwefror 2020, ac mae wedi trawsnewid Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Plymouth. Mae'r cadeirydd wedi darparu arweinyddiaeth gref ac mae'n ymwneud yn llawn â gwaith a datblygiad y gwasanaeth. Mae'r bwrdd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o wasanaethau'r sector statudol a'r trydydd sector. Mae eu cefnogaeth gref i waith cyfiawnder ieuenctid wedi arwain yn uniongyrchol at ragor o adnoddau staffio ac ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y tîm cyfiawnder ieuenctid. Mae'r cynllun 12 mis ar gyfer cyfiawnder ieuenctid
yn amrywiol ac yn hygyrch. Mae'n seiliedig ar ddadansoddiad blynyddol cynhwysfawr o droseddu ymysg pobl ifanc. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y math o drosedd, risg, ethnigrwydd, rhywedd a daearyddiaeth. Mae'n sail i benderfyniadau strategol a chyflawni gweithredol. Ceir cysylltiadau cryf gydag asiantaethau partner, sydd wedi bod yn sylfaen i'r gwasanaeth gwell a ddarperir. Mae'r cydweithio rhwng Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Plymouth a'r heddlu ar gyfer gwaith y tu allan i'r llys a gwaith dargyfeirio wedi arwain at welliannau sylweddol yn y maes hwn. Yn yr un modd, mae'r berthynas gref rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Plymouth a'r adran addysg a sefydliadau yn y ddinas wedi helpu i leihau nifer y plant ar lwyth achosion Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Plymouth nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae amrywiaeth ac anghymesuredd hefyd yn feysydd lle mae angen i fyrddau rheoli sicrhau bod amcanion cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu'n cael eu blaenoriaethu'n glir, a bod y rhain yn cael eu trosi'n ddarpariaeth weithredol effeithiol i bawb. Rydym yn disgwyl gweld dulliau bwriadol, strategol a gwybodus o ddiwallu anghenion amrywiol plant a oruchwylir gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac er ei bod yn gadarnhaol gweld bod ardaloedd wedi canolbwyntio eu hymdrechion ar gyflawni hyn, credwn fod llawer o waith i'w wneud o hyd.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol hefyd yn hanfodol. Rydym yn disgwyl gweld trefniadau secondio priodol gan asiantaethau statudol eraill, gyda gofynion staffio sylfaenol fel y pennir yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn cael eu dangos yn y strwythurau staff. Drwy gydol ein harchwiliadau yn 2020/2021, er bod gennym bryderon am staff prawf mewn rhai ardaloedd, yn gyffredinol gwelsom dystiolaeth dda o ran trefniadau partneriaeth eraill, gyda'r rhan fwyaf o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cael secondiadau priodol a mynediad at amrywiaeth o adnoddau arbenigol ar gyfer plant.

**Enghraifft o ymarfer da**

Mae nifer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid - er enghraifft, Brighton a Hove - wedi symud tuag at, neu'n symud tuag at, gynnig integredig i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc agored i niwed yn eu harddegau. Yn y modelau hyn, mae'r swyddogaethau cyfiawnder ieuenctid wedi eu lleoli mewn uned awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau i blant sydd ag amrywiaeth o anghenion. Yn Brighton a Hove roedd y model yn effeithiol ac roedd cyfraniad asiantaethau eraill ar draws y gwasanaeth plant ehangach wedi ei gydlynu'n dda, yn enwedig lle'r oedd materion yn ymwneud â diogelwch a llesiant a/neu risg o niwed i eraill.

## Staffio

Ar draws ein harolygiadau Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, rydym yn ystyried lefelau staffio a baich gwaith, sgiliau staff Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, a'r ffocws ar eu haddysg a'u datblygiad. Yn y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, rydym wedi rhoi sgôr 'Rhagorol' i staffio mewn saith o'r gwasanaethau a arolygwyd, a chafodd 17 sgôr 'Da'. Pennwyd bod y gweddill 'Angen gwella', a dim un yn cael sgôr 'Annigonol' ar gyfer y safon hon. Mae hyn yn well na'r 16 Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a arolygwyd y flwyddyn flaenorol pan mai dim ond un a gafodd sgôr 'Rhagorol' o ran staffio, 10 'Da', pedwar 'Angen gwella' ac un yn 'Annigonol'.

Yn ein Bwletin Ymchwil a Dadansoddi (Mai 2021) *Supporting the desistance of children subject to court orders*, buom yn edrych ar ba mor dda roedd Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cynorthwyo ymatal ymysg plant sy'n destun gorchmynion llys. Gwelsom fod llawer o staff yn ymgymryd â rolau sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddi staff i weithio gyda gangiau, addysg a chamddefnyddio sylweddau, yn ogystal â gweithwyr y gwasanaeth iechyd, therapyddion iaith a lleferydd, gweithwyr magu plant, gweithwyr CAMHS, cwnselwyr ieuenctid, therapyddion drama, seicolegwyr, gweithwyr ieuenctid a'r heddlu. Gwelsom lawer o enghreifftiau o berthynas gadarnhaol rhwng staff a phlant, a oedd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y gwaith a wnaed ac yn galluogi newid.

Ar yr un pryd, gwelsom enghreifftiau o faterion staffio a effeithiodd ar nifer, amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaethau a oedd ar gael. Nid oedd swyddi gwag oherwydd absenoldeb mamolaeth, salwch tymor hir, staff yn gadael neu ymddeoliad bob amser yn cael eu llenwi'n brydlon. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd rhyw fath o gynllun wrth gefn, ond nid oedd bob amser yn cael ei gyfleu'n dda i staff.

Mae hyfforddi a datblygu staff hefyd yn rhan hanfodol o ddarpariaeth o ansawdd uchel. Yn ein papur *Academic Insights* (Tachwedd 2021): Serious youth violence and its relationship with adverse childhood experiences, roedd Paul Gray, Hannah Smithson a Deborah Jump yn tynnu sylw at yr angen am hyfforddiant gan weithwyr proffesiynol cymwys mewn perthynas â rhoi ymarfer sy'n seiliedig ar drawma ar waith. Er bod gweithwyr cyfiawnder ieuenctid yn cydnabod eu bod wedi cael rhywfaint o hyfforddiant cyffredinol ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a dulliau sy'n seiliedig ar drawma, roeddent yn teimlo bod diffyg hyfforddiant penodol ar sut i weithredu ymarfer sy'n seiliedig ar drawma mewn ffordd fwy therapiwtig. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd cynnig goruchwyliaeth glinigol i weithwyr cyfiawnder ieuenctid.

Yn ein harolygon yn 2021, gwelsom enghreifftiau lle nad oedd lleiafswm staffio statudol ar waith ac roedd hyn yn cael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau. Ar draws ein harolygiadau yn ystod y cyfnod hwn, er enghraifft, gwelsom nifer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid lle'r oedd swydd y swyddog prawf yn wag, yn rhan amser neu lle'r oedd absenoldebau hirdymor, ac yr oedd anawsterau wedi eu nodi o ran recriwtio. Roedd y rhain yn cynnwys Hull, Wigan, Trafford, Swydd Bedford a Wakefield. Mae gan absenoldebau o'r fath oblygiadau eang, gan gynnwys effaith ar drosglwyddo effeithiol o wasanaethau ieuenctid i oedolion. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r rolau rhan amser rhwng Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf wedi arwain at reoli achosion yn aneffeithiol a darpariaeth weithredol wael. Gwelsom hefyd fod rolau swyddogion gwasanaethau prawf yn cael eu rhannu ar draws ardaloedd daearyddol eang, gan eu gwneud yn aneffeithiol ac yn anghynaladwy.

Roeddem hefyd yn bryderus ynghylch effaith y bwlch hwn ar ansawdd yr asesiadau risg a'r gwaith dadansoddi. Mae gan staff prawf wybodaeth arbenigol mewn asesu risg a rheoli risg. Canfuom rywfaint o gydberthynas rhwng gostyngiad yn adnoddau swyddogion prawf ac asesiadau, cynllunio ac ymyriadau annigonol ar gyfer risgiau o niwed i eraill mewn rhai


Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd hyn yn amlwg hefyd yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid lle'r oedd diffyg gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd cyfyngedig o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Mewn hinsawdd lle mae Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn gweld mwy o drais ymhlith pobl ifanc, mae hwn yn faes lle mae angen blaenoriaethu sgiliau a gwybodaeth. Er ein bod yn cydnabod bod y Gwasanaeth Prawf yn wynebu pwysau o sawl cyfeiriad ar hyn o bryd, rydym o'r farn bod hwn yn faes sy'n galw am sylw brys, ac mae'r Gwasanaeth Prawf wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cael adnoddau effeithiol a phriodol gyda staff prawf sydd â'r cymwysterau priodol.

## Partneriaethau a gwasanaethau

Mae ein holl arolygiadau Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn ystyried a yw'r trefniadau gyda phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae'r cymorth sydd ei angen ar blant fel arfer yn rhy gymhleth i un asiantaeth ei darparu ar ei phen ei hun. Gall gwaith ar y cyd arwain at:

- ragor o effeithiolrwydd drwy rannu syniadau a chydlynu gwasanaethau
- rhagor o effeithlonrwydd drwy gronni adnoddau ac osgoi dyblygu ymdrechion
- gwell ymgysylltu a chyfranogiad gan y plant a'u teuluoedd drwy greu cyfleoedd ac adnoddau cymunedol newydd yn eu bywydau.

**Ffigur 4: Gwasanaethau troseddau ieuenctid – gwaith aml-asiantaeth.**



Yn ein hadroddiad Ymchwil a Dadansoddi (Gorffennaf 2021): *Multi-agency work in youth offending services* adroddwyd gennym fod y gwaith aml-asiantaeth a wneir gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yn aml o ansawdd da, gyda chyfraniad priodol gan asiantaethau perthnasol, digon o rannu gwybodaeth a gwaith cydweithredol wedi ei deilwra i hwyluso cynnydd ym mywydau plant. Roedd cyd-leoli asiantaethau partner yn ategu gwaith aml-asiantaeth effeithiol. Fodd bynnag, er bod gwaith y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn hyrwyddo integreiddio cymunedol a mynediad at wasanaethau prif ffrwd yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn yn llai tebygol ar gyfer y plant hynny oedd â rhagor o sancsiynau blaenorol ac ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn yn bryder gan y gall y plant hyn fod ag anghenion cymhleth, a bod angen gwasanaethau a llwybrau darparu mwy integredig, gydag ymyriadau ar gael ar lefel unigolion, teulu a chymuned.

Yn ein Bwletin Ymchwil a Dadansoddi (Mai 2021): *Supporting the desistance of children subject to court orders* nodwyd bod gan lawer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael i gynorthwyo ymatal, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu darparu'n fewnol a'r rhai sy'n cael eu darparu gan asiantaethau partner, darparwyr yn y trydydd sector, a drwy wasanaethau eraill sy'n cael eu comisiynu. Gwelsom enghreifftiau cryf o waith aml-asiantaeth, gyda chanolbwyntiau ar gael mewn rhai lleoliadau, yn gweithredu fel siopau un stop yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i blant eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom hefyd enghreifftiau o fylchau yn y ddarpariaeth. Gallai cael mynediad at CAMHS prif ffrwd fod yn heriol, ac roedd y ffigurau ar gyfer y rhai nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn uchel, heb i bartneriaid wneud digon i fynd i'r afael â'r mater hwn. Canfuom fylchau yn y gwasanaethau sydd ar gael i ferched, ac roedd diffyg gwasanaethau gwneud iawn addas yn amlwg ar draws nifer o wasanaethau. Roedd diffyg darpariaeth hefyd ar gyfer therapi iaith a lleferydd.

## Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae ein harolygiadau lleol yn rhoi sylw penodol i'r cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gynigir i bobl ifanc ar lwyth achosion Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, o gofio bod hyn wedi cael ei gydnabod ers tro fel rhywbeth sy'n ganolog i ymatal. Mae gwasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr yn cynnig, neu'n gallu cael gafael ar, amrywiaeth o ymyriadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n cynnwys y canlynol yn aml:

- hyfforddiant parodrwydd i weithio fel 'sgiliau sylfaenol' rhifedd a llythrennedd a TG
- hyfforddiant a chymorth i chwilio am waith - er enghraifft, ysgrifennu CV a pharatoi ar gyfer cyfweliad
- addysg a hyfforddiant galwedigaethol
- lleoliad gwaith neu waith pontio, gwaith cyflogedig neu wirfoddol, a hyfforddwyr swyddi.

Mae plant sy'n cael eu goruchwylio gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yn fwy tebygol o gael, neu wedi cael, problemau o ran ymgysylltu ag addysg, presenoldeb a chyrhaeddiad.

Mae problemau gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn cael eu sbarduno'n bennaf gan rai o nodweddion cyffredin y plant sy'n cael eu goruchwylio gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid, gan gynnwys lefelau isel o lythrennedd a rhifedd, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, neu anableddau gwybyddol. Mae plant sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol hefyd yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac mae'r canlyniadau'n gallu effeithio ar eu gallu i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae plant sy'n ymwneud â chyfiawnder hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn cymdogaethau difreintiedig lle mae troseddu ac anhrefn yn fwy cyffredin, ac mae cyfleoedd da ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn brinnach.

Mae plant ar lwyth achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid hefyd yn dangos lefelau uchel o heriau niwroamrywiaeth. Yn ein papur *Academic Insights* (Gorffennaf 2021): *Neurodiversity – a whole-child approach for youth justice*, tynnodd yr Athro Amanda Kirby sylw at yr angen am hyfforddiant digonol o ansawdd uchel sy'n ymwneud â niwroamrywiaeth, sy'n cynnwys dealltwriaeth o gyd-ddigwyddiadau a allai fod yn bresennol a'r berthynas rhwng trawma a thrallod yn ystod plentyndod. Mae angen i staff gael offer ymarferol i gynorthwyo pob plentyn, ac mae angen arfau sgrinio ar y pwynt ymgysylltu. Er mwyn diwallu anghenion plant yn llawn, mae'n rhaid i'r arfau hyn fod yn hygyrch a mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na dull sy'n seiliedig ar labeli neu sy'n ynysig.

Mae'r pandemig wedi amharu ar addysg pob plentyn ledled y wlad. Plant o aelwydydd tlotach, oherwydd allgáu digidol, sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf o ran ymgysylltu ag addysg yn ystod y cyfnod hwn yn benodol, gydag effeithiau negyddol hirdymor posibl ar eu llesiant a'u cyfleoedd mewn bywyd.

Wrth asesu ansawdd y gwaith achos a wneir, mae'r arolygwyr yn nodi'r ffactorau pwysicaf o ran ymatal ym mywyd y plentyn. Mae dysgu/addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn gyson ymysg y tri phrif ffactor ac mae'n cael effaith debyg ar ymddygiad o ran ffordd o fyw a chamddefnyddio sylweddau.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd, gwelsom fod mynediad at addysg yn broblem i bron i ddwy ran o dair o'r plant a ddedfrydwyd i orchmynion llys yn yr achosion a arolygwyd gennym. Er bod y sefyllfa'n well i blant a oedd yn destun datrysiadau y tu allan i'r llys, roedd mynediad at addysg yn dal yn broblem i 47 y cant o'r plant yn ein sampl achosion.

Mewn ardaloedd sydd â'r trefniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mwyaf effeithiol, mae gwaith monitro'n cael ei wneud yn aml i ganfod plant nad ydynt yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Gall y trefniadau hyn gynnwys archwiliadau rheolaidd o achosion sy'n canolbwyntio ar Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth neu baneli rhyngasiantaethol a all ganfod atebion. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael ar gyfer plant oed ysgol ac ôl-16. Mae byrddau rheoli yn ymwybodol o faterion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth ac mae prosesau uwchgyfeirio ar waith ar gyfer y plant mwyaf cymhleth ac anodd eu lleoli. Mae Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth a Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cysylltu â gwasanaethau arbenigol fel yr Ysgol Rithwir, gwasanaethau anghenion addysgol arbennig ac anabledd, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, addysg ôl-16, diogelu a chymorth cynnar. Canolbwyntir ar anghenion y plentyn unigol.

Yn y nifer fach o ardaloedd lle'r oedd yr ymarfer ar ei wannaf, ychydig iawn o fonitro systematig a welwyd ar statws addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant ac roedd yr ymgysylltu â'r bwrdd rheoli ar y mater yn gyfyngedig. Arweiniodd hyn at nifer fawr o blant nad oeddent mewn darpariaeth briodol.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, gwelsom fod gan nifer sylweddol o blant gynlluniau addysg, iechyd a gofal, ond nid oedd eu hanghenion a nodwyd bob amser yn cael eu hadlewyrchu mewn asesiadau a gwaith achos Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid. Yn rhy aml, nid oedd y cynlluniau addysg, iechyd a gofal wedi cael eu sicrhau oherwydd cyfathrebu aneffeithiol rhwng y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a'r adrannau addysg.

Wrth adolygu achosion, nododd llawer o arolygwyr y gellir cysylltu gwahardd o'r ysgol â dechrau neu gynnydd sydyn yn arferion troseddol y plentyn. Gan gydnabod hyn, mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Swydd Gaer wedi ceisio dylanwadu ar bolisïau gwahardd o'r ysgol drwy weithio i sicrhau nad yw plant yn cael eu gwahardd yn awtomatig o'r ysgol os canfyddir bod ganddynt gyllell neu arf.

Mae'r rhan fwyaf o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dal i fod â staff addysg, hyfforddiant a chyflogaeth arbenigol yn rhan greiddiol o'u timau; fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, nid oedd hyn yn wir mwyach ac roedd llwybrau atgyfeirio i wasanaethau perthnasol. Roedd gan y gwasanaethau mwyaf effeithiol fynediad at adnoddau addysg arbenigol, fel seicolegwyr a therapyddion lleferydd ac iaith. Yng Ngogledd Tyneside, gwelsom fod mabwysiadu dull rheoli achosion gwell, cymorth y therapydd lleferydd ac iaith, a goruchwyliaeth gan seicolegydd clinigol, yn arwain at wasanaethau o ansawdd uchel i blant a'u teuluoedd.

**Enghraifft o ymarfer da**

Mae gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Darlington banel disgyblion agored i niwed sy'n monitro darpariaeth addysg y rhai y nodwyd bod ganddynt anghenion arbennig. Roedd tystiolaeth o gymorth gweithredol gan wasanaethau addysg ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gyda chyfleoedd i ymgysylltu'n gadarnhaol. Yn ogystal, roedd cynllun Gwobr Dug Caeredin wedi arwain at lif iach o blant yn mynd i addysg uwch a chyflogaeth neu hyfforddiant, gan gynnwys y lluoedd arfog.

**Enghraifft o ymarfer da**

Yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuenctid Gogledd Gwlad yr Haf, cwblhaodd y gwasanaeth a phartneriaid addysg archwiliad misol o statws addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant ar ddiwedd eu cyfnod. Cynigiwyd cymorth parhaus i'r rhai nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gan wasanaeth cyflogaeth ieuenctid ôl-16 yr awdurdod. Roedd gan ymarferwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddealltwriaeth dda o'r rôl mae addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ei chwarae o ran ymatal, a gwelsom, yn yr achosion y buom yn edrych arnynt, fod plant yn cael cymorth priodol i ddod o hyd i leoliad.

Roeddem yn poeni digon am ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i blant sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, yn enwedig y tarfu sylweddol ar y ddarpariaeth addysg i'r plant hynny yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19, fel ein bod ni wedi dechrau arolygiad thematig o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i blant ar lwyth achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn 2021. Mae hwn yn arolygiad thematig ar y cyd ag Ofsted a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn 2022.

## Ailsefydlu

Plant sy'n cael eu dedfrydu i garchar yw rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, er y gallant hefyd beri risg i eraill. Er bod nifer y plant sy'n cael dedfryd o garchar wedi gostwng – 84 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf, mae eu hanghenion yn aml yn gymhleth ac mae darparu gwasanaethau effeithiol iddynt yn gallu bod yn heriol. Yn 2015 a 2019 cynhaliodd Arolygiaeth Prawf a Charchardai EM arolygiadau thematig ar y cyd i baratoi plant ar gyfer eu rhyddhau o'r ddalfa a'u profiad ar ôl eu rhyddhau. Roedd canfyddiadau'r ddau adroddiad arolygu thematig yn sobri rhywun, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o'r diffygion yn y gwasanaeth a nodwyd yn 2015 yn dal i fod yn bresennol yn 2019.

Canfu arolwg thematig 2019:

*'…children were not being effectively prepared to re-enter their communities and start to live productive and safe law-abiding lives. The services that they needed on release were often*

*not in place to help them resettle, and the risks that they posed were not always sufficiently managed in their early days in the community. The timely provision of safe and suitable accommodation remained problematic for a small number of children, some of whom did not know where they were going to live until the day of release or very shortly before. As a result, there were no other services in place for them when they left custody. Good work in mental health support during custody was often negated by a lack of attention to continuing support on release. Education, training or employment work rarely led to purposeful activity in the community, or contributed to helping the child consider, meaningfully, their future possibilities.'*

Cafwyd tri argymhelliad i Wasanaethau Troseddau Ieuenctid:

- cyflawni eu cyfrifoldebau statudol a sicrhau eu bod yn chwarae rhan weithredol a llawn mewn achosion adsefydlu drwy gydol y ddedfryd
- eirioli'n gyson ac yn gryf ar ran eu hachosion mewn caethiwed i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu
- rhoi gwybod i blant mewn caethiwed cyn gynted â phosibl am yr amodau y byddant yn eu cynnwys ar drwydded y plentyn.

O ystyried y diffyg cynnydd ar ein hargymhellion niferus ar ddarpariaeth adsefydlu, ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom gyflwyno safon newydd yn canolbwyntio ar adsefydlu er mwyn ein galluogi i roi sgôr i wasanaethau troseddau ieuenctid unigol ar eu trefniadau ar gyfer darpariaeth adsefydlu effeithiol yn fwy rheolaidd ac yn fwy unigol. Cyhoeddwyd yr adroddiad arolygu cyntaf i gynnwys y safon newydd, sef Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cilgwri, ym mis Hydref 2021. Roedd y safon yn berthnasol i naw o'r 33 archwiliad yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad blynyddol hwn, gyda sgoriau ar gael ar gyfer saith o'r rhain.

Mae'r safon yn nodi'r gofynion ar gyfer gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa. Mae wedi ei rhannu'n dri chwestiwn allweddol:

- A oes polisi ailsefydlu ar waith sy'n hyrwyddo gwasanaeth ailsefydlu personol, adeiladol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?
- A yw'r ddarpariaeth ailsefydlu yn hyrwyddo gwasanaeth ailsefydlu personol, adeiladol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?
- A yw'r polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu yn cael eu hasesu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynnal cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth?

I bawb heblaw am y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid mwyaf, mae nifer y plant sy'n cael dedfryd o garchar yn fach ac mae rhai Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cael cyfnodau o flwyddyn neu ragor heb achos o garchar. Yn y gwaith maes arolygu, rydym yn adolygu uchafswm o 10, ond yn gyffredinol mae llawer llai o achosion adsefydlu ym mhob Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Os nad oes achosion adsefydlu yn y 12 mis cyn yr arolygiad, yna adolygir y ddarpariaeth a'r polisi adsefydlu ond ni roddir sgôr i'r safon.

Mae'r safon ailsefydlu yn cael ei sgorio ar wahân, ac nid yw'n cyfri tuag at sgôr gyffredinol y gwasanaeth troseddau ieuenctid. Fodd bynnag, rhoddir barn gyfyngedig, lle nad yw unrhyw Wasanaeth Troseddau Ieuenctid sy'n cael sgôr 'Annigonol' ar gyfer y safon adsefydlu yn gallu cael sgôr 'Rhagorol' gyffredinol.

O'r saith gwasanaeth sydd â sgoriau cyhoeddedig ar gyfer eu gwaith adsefydlu, roeddem wedi sgorio tri fel 'Da' ar gyfer y safon adsefydlu a phedwar fel rhai a oedd 'Angen gwella'. Ni chafwyd bod yr un ohonynt yn 'Rhagorol' nac yn 'Annigonol'. Canfuom ddarlun cymysg o ran datblygu polisi. Yn ymwybodol bod ein safon adsefydlu wedi cael ei chyflwyno, roedd

gan y rhan fwyaf o'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid y buom yn ymweld â nhw bolisi adsefydlu, neu roeddent wrthi'n datblygu un. Mae'r polisïau gorau yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu elfennau allweddol rhaglen adsefydlu gynhwysfawr fel llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gofal iechyd, camddefnyddio sylweddau, cyllid a dyledion, cymorth i deuluoedd a chyswllt. Canfu ein harchwiliadau thematig fod rhai elfennau allweddol o adsefydlu, fel llety, wedi cael eu gadael heb eu datrys hyd at ddyddiad rhyddhau unigolyn ac felly dylai polisi cadarn gynnwys amserlenni ar gyfer tasgau allweddol.

Dylai pob polisi adsefydlu gynnwys yr angen i ystyried materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, er mwyn i drefniadau adsefydlu ystyried y rhain. Roedd polisi Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wakefield yn nodi'r angen i ystyried ffactorau amrywiaeth, fel anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, anghenion penodol plant mewn gofal, ac yn nodi'r angen i ystyried nodweddion gwarchodedig. Roedd dull seiliedig ar gryfderau a oedd yn cael ei hwyluso gan yr ethos adsefydlu adeiladol.

**Enghraifft o ymarfer da**

Yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuenctid Swydd Bedford, cyfieithwyd gwybodaeth i iaith gyntaf y fam mewn un achos, i egluro'r trefniadau cyn rhyddhau a chyrffyw; mewn un arall, rhannwyd gwybodaeth yn yr asesiad a'r cynlluniau dedfrydu yn ymwneud ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd y plentyn. Yn yr achos cyntaf, roedd defnydd creadigol o amodau trwydded a gynlluniwyd i gadw'r plentyn yn ddiogel; yn yr ail, roedd cyfarfodydd cynllunio yn rhoi sylw i ba mor agored oedd y plentyn i gael ei ecsbloetio a gweithgareddau gangiau, gyda'r bwriad o gynorthwyo staff prawf i ddod o hyd i lety priodol.

Bydd plant hŷn sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sy'n cael dedfryd o garchar yn gymwys i dderbyn cymorth gwasanaethau gofal ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed, ac mae'n bwysig bod gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid berthynas waith effeithiol gyda'r gwasanaethau hynny. Yn yr un modd, bydd cyfran o blant sy'n gadael y ddalfa yn gweld eu goruchwyliaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf. Mae proses drosglwyddo effeithiol rhwng pobl ifanc ac oedolion yn hanfodol ar gyfer y categori hwn o blant. Bydd yr achosion mwyaf cymhleth yn cynnwys plant sy'n gadael y ddalfa ac sy'n derbyn nifer o wasanaethau, fel iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, sy'n trosglwyddo o amrywiaeth o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion ar yr un pryd. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn chwarae rhan hanfodol er mwyn sicrhau bod y newidiadau sylweddol hyn yn cael eu rheoli mor ddidrafferth â phosibl a bod pob plentyn yn cael ei gefnogi.

Roedd gan rai ardaloedd gynlluniau mentora ar gyfer plant a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa ac roedd hyn yn ffynhonnell ychwanegol a oedd yn cael ei chroesawu'n fawr. Roedd yn bwysig bod polisi ac ymarfer adsefydlu yn cysylltu â threfniadau presennol Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid ar gyfer achosion cymhleth ac achosion risg uwch.

Nid oedd polisi cynhwysfawr o reidrwydd yn gwarantu arfer da. Gwelsom Wasanaethau Troseddau Ieuenctid lle'r oedd y polisi'n gryf, ond roedd yr arfer yn wan, ac ar y llaw arall, gwelsom waith achos effeithiol ond gwelsom fod y polisïau'n dal i fod ar y cam datblygu. Ar y cyfan, hyd yma, rydym wedi nodi ei bod yn well cael trefniant polisi ac ymarfer cadarn wedi ei ategu gan hyfforddiant penodol a goruchwyliaeth rheoli achosion yn effeithiol. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod y polisi yn gyfredol ac ymwybyddiaeth y staff ohono. Drwy gyflwyno'r safon, gallwn weld bod Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn rhoi sylw i adsefydlu. Mae llawer yn adolygu neu'n cyflwyno polisïau adsefydlu, ac mae mwy o ffocws ar sicrhau darpariaeth o safon.

# 5. Ansawdd goruchwylio achosion y llys a'r tu allan i'r llys

Yn ein harolygiadau craidd, rydym yn archwilio ansawdd y gwaith mewn achosion unigol, gan gynnwys datrysiadau yn y llys a datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae ein safonau arolygu yn seiliedig ar y model ASPIRE sydd wedi hen ennill ei blwyf ar gyfer goruchwylio achosion, sy'n cydnabod, er mwyn i'r ddarpariaeth gael ei theilwra i'r plentyn unigol, bod yn rhaid asesu a chynllunio'n dda. Rydym yn ystyried ansawdd mewn perthynas â (i) cefnogi ymatal, (ii) cadw'r plentyn yn ddiogel, a (iii) cadw pobl eraill yn ddiogel.


**Safonau ASPIRE:**

**Asesu:**

- Anghenion
- Cryfderau
- Rhwystrau
- Diogelwch y plentyn/diogelwch eraill

**Cynllunio:**

- Pennu amcanion goruchwylio
- Nodi ymyriadau/gwasanaethau/cyfleoedd priodol
- Ystyried dilyniannu ac aliniadau
- Penderfynu pa gamau sydd i'w cymryd, pryd a chan bwy




**Gwerthuso:**

- Adolygu cynnydd o ran yr amcanion
- Nodi tystiolaeth o gynnydd
- Amlygu cyflawniadau
- Penderfynu beth sydd angen ei wneud nesaf

**Gweithredu:**

- Rhoi'r cynllun ar waith
- Cadw cofnodion
- Monitro cynnydd
- Datrys problemau

## Gweithio i hyrwyddo ymatal

Mae gwaith ymatal yn gofyn i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ganolbwyntio ar amrywiaeth eang o ffactorau ac ar ddatblygu cryfderau'r plentyn, wedi ei ategu gan feithrin cysylltiadau cadarnhaol a chydweithio. Canfuom fod hwn yn faes o gryfder yn y rhan fwyaf o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid a arolygwyd gennym yn 2021; roedd pedwar o bob pump o'r achosion llys a arolygwyd gennym o ansawdd digonol mewn perthynas â gwaith sy'n gysylltiedig ag ymatal ar draws pob un o'n pedwar safon ASPIRE.

## Darparu ymyriadau

Yn ein Bwletin Ymchwil a Dadansoddi 2021/03: *Supporting the desistance of children subject to court orders,* buom yn archwilio i ba raddau roedd gwaith diweddar Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi diwallu anghenion plant sy'n derbyn gorchmynion llys. Er i ni ganfod bod gan lawer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael, gyda staff ymroddedig a gweithgar yn rhoi sylw i ddatblygu cryfderau/ffactorau amddiffynnol a chynnwys/ymgysylltu â'r plentyn. Fodd bynnag, gwelsom fylchau hefyd mewn rhai meysydd a rhai gwahaniaethau yn ansawdd y ddarpariaeth rhwng


is-grwpiau, fel plant sydd â phrofiad o ofal. Mae'n hanfodol bod pob plentyn yn elwa ar wasanaeth cefnogol, personol o ansawdd uchel, beth bynnag fo'i gefndir neu ei amgylchiadau a'i nodweddion unigol.

Nododd ein harolygwyr rwystrau a galluogwyr cyffredin ar draws yr achosion a archwiliwyd ganddynt. Roedd galluogwyr allweddol yn cynnwys y canlynol: (i) asesu'n amserol, gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf ac o amrywiaeth o ffynonellau; (iii) dal ati i gysylltu â'r plentyn a dod o hyd i'r cyfleoedd priodol ar ei gyfer; (iii) bod yn ymwybodol o brofiadau niweidiol plant a, lle bo hynny'n berthnasol, mynd i'r afael â'r rhain ar gyflymder sy'n gyfforddus i'r plentyn; (iv) nodi modelau rôl a modelu rôl ymddygiad cadarnhaol yn fwy cyffredinol; a (v) cael strategaeth ymadael glir i alluogi'r plentyn i gynnal neu barhau i wneud cynnydd cadarnhaol ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben.


## Diogelwch a llesiant

Yn ogystal â gwaith i hyrwyddo ymatal, mae ein harolygiadau o achosion unigol hefyd yn canolbwyntio ar ba mor dda mae rheolwyr achos wedi nodi ac wedi cynllunio ar gyfer anghenion diogelwch a llesiant y plant ar eu baich achosion. Er bod y rhan fwyaf o achosion gorchmynion llys, fel y dengys Ffigurau 5 a 6, wedi cael sgôr boddhaol ar gyfer yr agwedd allweddol hon ar ansawdd, roedd y sgoriau'n is ar gyfer y maes hwn nag ar gyfer gwaith sy'n canolbwyntio ar ymatal, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio. Fodd bynnag, mae hyn yn welliant ar ganfyddiadau 2019/2020 (Ffigur 7).


**Ffigur 5: Canran yr achosion o benderfyniadau yn y llys lle aseswyd bod cwestiynau'r safonau cyffredinol yn rhai cadarnhaol, wedi eu dadansoddi yn ôl ymatal, diogelwch a'r risg o niwed (ar sail 24 archwiliad o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid cyn mis Gorffennaf 2021).**



**Ffigur 6: Canran yr achosion o benderfyniadau yn y llys lle aseswyd bod cwestiynau'r safonau cyffredinol yn rhai cadarnhaol, wedi eu dadansoddi yn ôl ymatal, diogelwch a'r risg o niwed (ar sail naw archwiliad ar ôl mis Gorffennaf 2021).**




**Ffigur 7: Canran yr achosion o benderfyniadau yn y llys lle aseswyd bod cwestiynau'r safonau cyffredinol yn rhai cadarnhaol, wedi eu dadansoddi yn ôl ymatal, diogelwch a'r risg o niwed (arolygon 2019/2020).**




Yn ein Bwletin Ymchwil a Dadansoddi 2021/05: *The quality of delivery of out-of-court disposals in youth justice* gwelsom mai un thema a oedd yn rhedeg drwy bron bob un o'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a oedd yn perfformio'n wael oedd diffyg canolbwyntio ar ddiogelwch y plentyn a/neu ddiogelwch pobl eraill. Roedd hyn yn aml yn dechrau yn y cam asesu, lle'r oedd y rheolwr achos yn canolbwyntio ar ymatal, ond yn rhoi llai o sylw i

faterion posib yn ymwneud â diogelwch a lles y plentyn ei hun. Roedd nifer sylweddol o achosion lle daeth ein harolygwyr i'r casgliad nad oedd y rheolwr achos wedi cydnabod pryderon penodol yn ddigonol, ac roeddent yn anghytuno â'r dosbarthiadau 'isel' ar ddiogelwch a llesiant a/neu risg o niwed difrifol. O'r herwydd, roedd is-grŵp o blant yn colli'r cyfle i gael cymorth a gwarchodaeth a allai fod o fudd iddynt. Gall pryderon ynghylch diogelwch waethygu dros amser, ac mae gan weithgareddau amlasiantaeth cydlynus a phersonol sy'n canolbwyntio'n fanwl y potensial i fod o fudd i'r plant a'r gymdeithas ehangach yn y tymor hwy.

Mae cyfrifoldeb pwysig ar bob Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i weithio gydag asiantaethau eraill i sefydlu lle diogel i gefnogi plant. Yn ein Bwletin Ymchwil a Dadansoddi 2021/04, rydym yn nodi'r galluogwyr allweddol a ganlyn:

- defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael mewn asesiadau sy'n ddadansoddol, sy'n deall bywyd y plentyn yn gyfannol a sut mae eu diogelwch a'u lles yn gysylltiedig â chyd-destun cymdeithasol
- dod â'r gwahanol asesiadau a wnaed gan bartneriaid at ei gilydd mewn un ddogfen sy'n nodi ac yn crynhoi'r ffynonellau, gan hwyluso cyd-ddealltwriaeth
- cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau gyda'r plentyn, gyda chynlluniau wrth gefn yn nodi'r risgiau posibl o ddwysáu a dirywiad, ac yn nodi'r camau y mae'n rhaid i bob asiantaeth sy'n gweithio gyda'r plentyn eu cymryd
- canolbwyntio ar ddilyniant priodol, pan fydd nifer o feysydd angen yn cael eu nodi, er mwyn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu darparu mewn ffordd a fydd yn cael yr effaith fwyaf
- sicrhau bod Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cyfrannu'n llawn at brosesau diogelu, yn enwedig mewn perthynas ag ecsbloetio plant yn rhywiol ac ecsbloetio troseddol
- defnyddio adnoddau ac arbenigedd aml-asiantaeth i ategu ymgysylltu a chydymffurfio, gan fynd i'r afael â rhwystrau a nodwyd
- rheolwr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithredu fel eiriolwr dros y plentyn i asiantaethau a gwasanaethau eraill.


## Rheoli datrysiadau yn y llys a datrysiadau y tu allan i'r llys

Ar gyfer plentyn sy'n cael ei holi am drosedd llai difrifol, gydag ychydig (os o gwbl) o rybuddion neu euogfarnau blaenorol ac sy'n fodlon derbyn cyfrifoldeb am y digwyddiad, bydd gan yr heddlu amrywiaeth o ddewisiadau o ran bwrw ymlaen. Bydd y rhain yn amrywio o un llu i un arall, ond gallant gynnwys 'cyfiawnder adferol ar y stryd', lle gall swyddog yr heddlu fynnu bod plentyn yn gwneud iawn am ei drosedd ar unwaith, er enghraifft drwy roi eitem wedi ei dwyn yn ôl; rhybudd canabis, lle mae'n rhaid i'r plentyn fynd ar raglen ymwybyddiaeth o ganabis; neu rybudd ieuenctid, lle mae'r sancsiwn wedi ei gofnodi'n swyddogol ond nad oes rhaid i'r plentyn gwblhau unrhyw waith o reidrwydd. Ar gyfer rhybuddiad amodol i bobl ifanc ac ail rybuddiad i bobl ifanc, mae'n ofynnol i'r plentyn gael ei gyfeirio at wasanaeth a chwblhau asesiad. Mewn achosion eraill, mater o bolisi lleol fydd pa blant mae'r heddlu'n eu cyfeirio at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a beth fydd y cynnig o ymyriad ar gyfer y plentyn hwnnw.


Roedd ansawdd y rheolaeth achosion ar gyfer plant a oedd yn destun datrysiadau y tu allan i'r llys yn well yn 2020/2021 (Ffigur 8) nag yn 2019/2020. (Ffigur 9). Ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd cyn mis Gorffennaf 2021, roedd cyfran yr achosion y tu allan i'r llys a welsom o ansawdd digonol o ran ein cwestiynau allweddol ynghylch gwaith sy'n canolbwyntio ar ymatal; roedd diogelwch a llesiant y plentyn ei hun a rheoli risg o niwed i'r cyhoedd yn uwch

yn 2020/2021 nag yn ein harchwiliadau o flynyddoedd blaenorol – ac eithrio cynllunio i reoli risgiau posibl o niwed. Roedd hyn er gwaethaf heriau gwirioneddol darparu gwasanaethau yn ystod y pandemig.

**Ffigur 8: Canran yr achosion datrysiadau y tu allan i'r llys lle cafodd cwestiynau'r safonau cyffredinol eu hasesu fel rhai cadarnhaol, yn ôl ymatal, diogelwch a risg o niwed (cyn Gorffennaf 2021 - yn seiliedig ar 24 o arolygiadau'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid).**




**Ffigur 9: Canran yr achosion gwaredu y tu allan i'r llys lle cafodd cwestiynau'r safonau cyffredinol eu hasesu fel rhai cadarnhaol, yn ôl ymatal, diogelwch a risg o niwed (2019/2020).**




Yn gyffredinol, yn yr arolygiadau a gynhaliwyd cyn mis Gorffennaf 2021, roedd yr asesiad, a'r gweithredu a'r cyflawni'n cael eu cynnal yn dda yn y rhan fwyaf o'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, er bod y sgoriau cyfartalog yn is ar gyfer arolygiadau yn ail hanner

2021. Yn anffodus, fodd bynnag, canfuwyd bod nifer fechan yn dal i ddarparu gwasanaeth annigonol i'r grŵp hwn.

Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella mewn perthynas ag o leiaf un agwedd ar gwaith y tu allan i'r llys mewn mwy na hanner yr adroddiadau arolygu. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n gyffredinol ar ddiogelwch a llesiant, a'r risg o niwed i eraill.

Mae llawer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yn dweud wrth arolygwyr fod eu gwaith gyda phlant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys yn cyfrif am gyfran gynyddol o'u gwaith. Mae'r prosesau a ddefnyddir i benderfynu pwy sy'n cael penderfyniad y tu allan i'r llys a'r ymyriad sydd i'w roi yn cael eu datblygu'n lleol fel arfer gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid perthnasol neu ardal heddlu weithiau sy'n cwmpasu sawl Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd drefniant panel lle mae'r heddlu, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau eraill yn cyfarfod i drafod achos y plentyn a gwneud penderfyniadau ynghylch gwybodaeth sy'n ymwneud â'r plentyn, ei drosedd a'i amgylchiadau. Mae ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i'r paneli hyn yn amrywio. Mewn rhai ardaloedd, mae'r plentyn yn destun asesiad cyn cyfarfod y panel; mewn ardaloedd eraill, nid yw'r plentyn yn cael ei weld ac yn hytrach darperir crynodebau o gofnodion asiantaethau sy'n amlinellu'r anghenion a'r risgiau y gwyddys amdanynt.

Symudodd y rhan fwyaf o'r ardaloedd i 'banelau gwaredu y tu allan i'r llys rhithiol' yn ystod cyfnodau cyfyngiadau'r pandemig, a pharhaodd rhai ardaloedd â'r trefniadau hyn pan godwyd y cyfyngiadau. Gallai trefniadau'r panel fod yr un mor effeithiol p'un ai a ydynt yn cael eu cynnal o bell neu wyneb yn wyneb.

Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom gyflwyno safon newydd a oedd yn asesu ansawdd y ddarpariaeth a'r polisi gwaredu y tu allan i'r llys. Roedd hyn yn disodli'r safon flaenorol: gweithio ar y cyd. Fe'i cynlluniwyd i gael gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd yr holl broses gwneud penderfyniadau ac ymyriadau y tu allan i'r llys. Roedd wyth o'r arolygiadau cyhoeddedig yr ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad hwn yn ddarostyngedig i'r safon newydd. Mae'r safon newydd yn asesu a gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel ar waith, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy. O hyn, mae dyfarniad yn seiliedig ar y trefniadau lleol hyn. Pennwyd dau faes yn 'Dda', pump fel rhai a oedd 'Angen gwella' ac un yn 'Annigonol'. Nid oedd yr un ohonynt yn 'Rhagorol'.

## Asesu

Roedd yr ardaloedd a berfformiodd yn gryf mewn datrysiadau y tu allan i'r llys yn cynnal asesiadau trylwyr o'r plentyn, yn cynnwys y plentyn, ei deulu neu ei ofalwyr, ac yn ystyried materion yn ymwneud â dioddefwyr. Roedd yr asesiadau hyn yn cyfrannu at wneud penderfyniadau o safon uchel ar y paneli ac yn arwain at ymyriadau priodol gyda'r plentyn. Yn yr ardaloedd gwannaf, ni chafodd plant eu hasesu, ni chafodd y plentyn na'r teulu na'r gofalwyr eu cynnwys ac nid oedd gwybodaeth allweddol mewn perthynas â risgiau hysbys o niwed a bod yn agored i niwed ar gael i'r panel.

Nid oedd yn ymddangos mai'r arf asesu a ddefnyddiwyd oedd y prif ffactor o ran ansawdd yr asesu. Roedd rhai ardaloedd yn defnyddio adnodd asesu cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, *AssetPlus*, ac eraill yn datblygu eu hadnodd asesu lleol eu hunain, a oedd yn aml yn fyrrach ac yn symlach i'w gwblhau. Y ffactor allweddol oedd bod yr asesiad wedi nodi'r risgiau allweddol mewn perthynas â throseddu, diogelwch a llesiant, a niwed i eraill.

## Cynllunio

Mae'r ymyriadau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r broses o waredu y tu allan i'r llys yn aml yn fyr. Serch hynny, mae angen cynllun cyflawni a dylai'r cynllun, os yw am fod yn effeithiol, ddefnyddio canfyddiadau'r asesiad. Yn gyffredinol, roedd cynllunio ymyriadau gyda phlant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys yn llai effeithiol nag asesu. Roedd cynllunio'n tueddu i fod gryfaf o ran mynd i'r afael â ffactorau ymatal ond yn llai cryf o ran y risg o niwed i eraill. Yn un o'r ardaloedd gwannaf, nododd yr arolygydd:

*"There is no written plan in place to document how the risk of harm would be managed. The case manager was unable to articulate the measures in place apart from some very basic information-sharing. There is no contingency planning or identification of what an escalation in risk might look like, or what actions would need to be taken".*

## Gweithredu a chyflawni

Nodweddion gweithredu a darparu effeithiol yw bod yr ymyriadau a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun cymdeithasol a hunaniaeth y plentyn ac yn hyrwyddo cyfleoedd iddo integreiddio yn y gymuned a chael mynediad at wasanaethau prif ffrwd. Mae rheolwyr achos yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal perthynas dda gyda phlant a'u teuluoedd a galluogi'r plentyn i ymwneud â'i benderfyniad y tu allan i'r llys. Maent yn ystyried sut i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol i leihau'r risg y bydd y plentyn yn peri niwed i eraill. Mae amrywiaeth o raglenni ar gael i fynd i'r afael â'r mathau mwyaf cyffredin o droseddau. Lle'r oedd gweithredu a darparu'n llai effeithiol, roedd hyn yn aml oherwydd bod yr asesu a'r cynllunio a ragflaenodd hefyd yn wan.

**Enghraifft o ymarfer da**

Pennwyd bod Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Brighton a Hove yn rhagorol ar draws holl elfennau safonau archwilio y tu allan i'r llys. Roedd asesiadau'n defnyddio gwybodaeth o sawl ffynhonnell fel mater o drefn er mwyn cael y ddealltwriaeth orau o amgylchiadau a hanes plentyn. Cwblhawyd asesiadau llawn a manwl cyn i'r panel gwneud penderfyniadau ar y cyd gyfarfod, a fu'n gymorth i wneud penderfyniadau a phenderfynu ar y cymorth a'r ymyriadau sydd eu hangen. Roedd yr asesiadau'n gytbwys, gan fod materion yn ymwneud â dioddefwyr a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol i'w gweld ym mhob achos, ac roedd ffocws ar y risg o niwed i eraill. Roedd cyfraniad y plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn amlwg ym mhob achos, yn ogystal ag ystyried amrywiaeth a chyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach y plentyn.


## Penderfyniadau cymunedol

Mae darpariaethau 'datrysiad cymunedol' anffurfiol, yn hytrach na rhybuddion statudol, wedi dod yn ddewis mwyfwy cyffredin a dymunol ar gyfer paneli penderfyniadau y tu allan i'r llys, ac mewn rhai Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid maent bellach yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'u llwyth achosion y tu allan i'r llys.


Mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, rydym wedi canfod bod ansawdd yr asesu, y cynllunio a'r darparu ar gyfer y math hwn o waredu yn llawer gwaeth nag ar gyfer dewisiadau statudol y tu allan i'r llys. Mae ein data diweddaraf (Ffigur 10) yn awgrymu bod ansawdd y gwaith gyda'r math hwn o benderfyniadau wedi gwella, gyda dwy ran o dair neu fwy o'r achosion a archwiliwyd gennym cyn newid ein methodoleg, ym mis Gorffennaf 2021, yn cael sgôr boddhaol o ran erbyn ein safonau ansawdd a'n cwestiynau allweddol ar bob cam o'r oruchwyliaeth. Mae'n ymddangos bod y bwlch rhwng ansawdd y gwaith gydag

achosion datrys yn y gymuned a datrysiadau y tu allan i'r llys statudol (Rhybuddion Ieuenctid a Rhybuddion Amodol Ieuenctid) wedi cau hefyd – yn wir, ar gyfer rhai o'n safonau, roedd y sgoriau cyfartalog ar gyfer y sampl datrys yn y gymuned yn well nag ar gyfer rhybuddion statudol (Ffigur 11).

**Ffigur 10: Sgoriau cyfartalog ar gyfer achosion penderfyniadau cymunedol 2020/2021 (yn seiliedig ar 24 o arolygiadau cyn mis Gorffennaf 2021).**




**Ffigur 11: Sgoriau cyfartalog Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid ar gyfer safonau gwaredu y tu allan i'r llys 2020/2021 (yn seiliedig ar 24 o arolygiadau cyn mis Gorffennaf 2021).**




## Rheoli risg o niwed

Mae llwythi achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda nifer y plant sydd yn y ddalfa neu sy'n destun gorchmynion llys a phenderfyniadau y tu allan i'r llys i gyd wedi gostwng. Mae'n bosib y bydd rhai plant a

fyddai, yn y gorffennol, wedi derbyn gorchymyn llys yn awr yn derbyn penderfyniad y tu allan i'r llys. Effaith hyn fu canolbwyntio llwyth gwaith Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid ar achosion sy'n peri risg uwch ar draws yr holl feysydd risg (aildroseddu, diogelwch a llesiant, a niwed i eraill), a throseddau treisgar sy'n cyfrif am gyfran gynyddol o'r baich achosion. Mae hyn yr un mor wir am ddatrysiadau yn y llys a'r tu allan i'r llys.

Roedd troseddau treisgar yn cyfri am 49 y cant o achosion llys y 33 gwasanaeth a arolygwyd gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent yn cyfrif am 32 y cant o'r holl droseddau a brofwyd a gyflawnwyd gan blant yn yr ystadegau cenedlaethol – cynnydd o 21 y cant er 2011. Trais hefyd yw'r math mwyaf cyffredin o drosedd mewn datrysiadau y tu allan i'r llys (42 y cant o'r achosion y buom yn edrych arnynt yn y samplau hyn).

Mae llawer o'r trais hwn yn erbyn cyfoedion, ond mae categorïau arwyddocaol eraill, fel trais gan blant yn erbyn rhieni - er enghraifft, gan fechgyn hŷn yn erbyn mamau sengl. Roeddem yn poeni bod y trais a'r ymddygiad rheoli hwn wedi dod yn fwy amlwg yn ystod cyfnodau clo'r pandemig. Yn ein sgyrsiau ag uwch arweinwyr ym mis Rhagfyr 2021 – wrth edrych ar effaith Covid-19 – roeddem wedi holi am drais gan blant tuag at eu rhieni. Roedd nifer wedi gweld cynnydd mewn troseddau o'r fath yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud ac roeddent yn gweithio tuag at eu deall a dod o hyd i atebion.

Dywedodd Samantha Starmer, Pennaeth Gwasanaethau yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cumbria, eu bod wedi gweld cynnydd mewn trais rhwng plant a rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud, a oedd wedi arwain at fwy o ffocws ar ddeall sut gallai dioddefwyr gael eu hamddiffyn yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud a sicrhau bod partneriaid yn deall yn iawn y lefelau o drais rhwng plant a rhieni yn eu hardaloedd. Maent yn awr yn cynnal adolygiadau chwarterol o achosion lle mae trais a difrod troseddol yn bresennol ac yn *"unpick what the violence looks like, such as how many were peer-on-peer, how many were in the home, and how many were out in the community".*

Yn gyffredinol, dywedodd uwch arweinwyr Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wrthym fod llwythi achosion yn is, gan ganiatáu ar gyfer mwy o fuddsoddiad mewn gwaith atal. Ond roedd y rhai o dan eu goruchwyliaeth yn fwy tebygol o fod yn achosion risg uchel o niwed (29 y cant o'r holl achosion, ar gyfer gwasanaethau a arolygwyd cyn mis Gorffennaf 2021 a 25 y cant ar ôl mis Gorffennaf 2021 ar gyfer y 33 gwasanaeth a arolygwyd gennym yn 2020/2021) ac o fod wedi cyflawni troseddau treisgar difrifol. Yn wir, dywedodd rhai gwasanaethau fod ganddynt fwy o blant yn ymwneud â thrais lefel uchel, gan gynnwys llofruddiaethau, ymgais i lofruddio a Niwed Corfforol Difrifol, yn eu carfan nag o'r blaen.

Mae natur newidiol y garfan o blant sy'n cael eu goruchwylio gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid (llai o nifer ond yn fwy treisgar) yn ei dro yn effeithio ar y risg o niwed maent yn ei achosi i bobl eraill. Mae ein data arolygu yn dangos bod bron i 80 y cant o blant a ddedfrydwyd i orchymyn llys yn peri rhyw fath o risg i eraill, ac ystyriwyd bod 30 y cant yn peri risg uchel neu uchel iawn o niwed.

Mae'r categori trais yn cwmpasu amrywiaeth eang o fathau o droseddau a difrifoldeb yr effaith ar y dioddefwr. Mae'r Arolygwyr yn aml yn cael eu synnu o ddarllen ffeiliau achos bod gweithredoedd nad ydynt o bosibl yn bwriadu achosi niwed difrifol yn gallu cael effaith enfawr ar ddioddefwyr. Gall un ergyd sy'n taro dioddefwr i'r llawr arwain at anafiadau sy'n newid bywyd. Am y rheswm hwn, mae cydnabod y potensial ar gyfer risg o niwed a'i reoli'n effeithiol yn elfen hanfodol o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid effeithiol. Mae'r egwyddor hon yr un mor berthnasol i achosion llys a datrysiadau y tu allan i'r llys.

Fel y dengys Ffigurau 5 a 9, mae ein data arolygu yn dangos bod rheoli risg o niwed difrifol yn dal yn wannach na'r agweddau eraill ar oruchwyliaeth rydym yn eu harolygu – yn enwedig ar gyfer gorchmynion llys ar draws pob un o'n pedwar safon asesu, cynllunio,

darparu ac adolygu. Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwnaethom argymhellion mewn perthynas â risg o niwed mewn mwy na hanner ein harchwiliadau.

## Asesu

Rhoddodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Merton enghreifftiau o ardaloedd a oedd yn asesu'r risg o niwed yn effeithiol. Canfu'r arolygwyr fod yr asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac ar wybodaeth dda, a'u bod wedi dosbarthu'r risg o niwed i eraill yn gywir. Daeth rheolwyr achos â thystiolaeth ynghyd ar faterion neu ymddygiad cyfredol a hanesyddol, a arweiniodd yn ei dro at asesiadau cytbwys a rhesymegol. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau'n cynnwys gwybodaeth gan asiantaethau a ffynonellau eraill (gan gynnwys gofal cymdeithasol, yr heddlu, addysg ac iechyd). Rhoddodd ymarferwyr sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol. Roeddent yn cynnwys y plentyn, a rhieni a gofalwyr, ac yn ystyried hunaniaeth y plentyn a chyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach.

Mewn rhai ardaloedd, roedd asesu'r risg o niwed yn aneffeithiol. Fel arfer, canfuom achosion lle nad oedd ymarferwyr wedi defnyddio ffynonellau gwybodaeth priodol, a oedd yn nodi'n glir yr holl ffactorau perthnasol neu'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol. Mae'n bosib nad ydynt wedi ystyried yn ddigonol batrwm ymddygiad y plentyn na'r rheolaethau a'r ymyriadau sydd ar waith i reoli a lleihau'r risg o niwed a berir gan y plentyn. Yn aml nid oedd bob amser yn glir pwy oedd y dioddefwyr, ac roedd diffyg dadansoddi wedi arwain at gynlluniau aneffeithiol i atal rhagor o ddioddefwyr. Lle'r oedd ymddygiad rhywiol niweidiol, yn aml nid oedd dadansoddiad effeithiol, yn enwedig lle nad oedd yr ymddygiad yn gysylltiedig â'r prif drosedd.

Mewn nifer fach o ardaloedd, roedd yr asesiad o'r risg o niwed yn gryf mewn achosion llys ac yn wan mewn achosion y tu allan i'r llys. Gallai hyn fod o ganlyniad i wahanol brosesau neu staff yn cynnal asesiadau ar draws y gwahanol gategorïau gwaredu. O ystyried y potensial i achosion y tu allan i'r llys beri risgiau sylweddol, mae'n bwysig bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn sicrhau asesiad o safon uchel ar draws eu holl achosion.

## Cynllunio

Yng Nghilgwri, daethom o hyd i arferion a oedd yn dangos cynllunio effeithiol i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill. Yno, roedd y cynllunio'n ystyried hunaniaeth y plentyn a'i amgylchiadau personol ac yn ystyried ei gryfderau a'i ffactorau amddiffynnol yn ogystal â lefel ei aeddfedrwydd a'i gymhelliant i newid. Roedd rheolwyr achos yn cynnwys plant, a'u rhieni neu ofalwyr yn y gwaith cynllunio. Roeddent hefyd yn ystyried anghenion a dymuniadau dioddefwyr. Roedd rheolwyr achos yn ystyried y pryderon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl wrth gynllunio i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill.

Un agwedd ar gynllunio lle'r oedd ymarfer yn llai effeithiol mewn llawer o ardaloedd oedd cynllunio wrth gefn. Gall amgylchiadau plant newid yn gyflym. Gallai hyn olygu newidiadau mewn trefniadau byw, lleoliad addysg neu droseddau newydd sy'n dod i'r amlwg. Gall y newidiadau hyn arwain at ragor o droseddau wrth i'r plentyn wynebu aflonyddwch ac ansefydlogrwydd ar adegau yn ei fywyd. Weithiau, gall newidiadau mewn amgylchiadau arwain at leihau ffactorau risg, ac eto gallai hyn olygu newid yn y dull gweithredu gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Mae gan yr offeryn asesu cenedlaethol safonol, *AssetPlus*, adran ar gyfer trefniadau wrth gefn, ond nid yw hwn bob amser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, ac mae arolygwyr yn aml yn asesu cynllunio wrth gefn fel un o'r agweddau gwannaf ar gynllunio. Roedd dros chwarter yr adroddiadau arolygu yn y 12 mis diwethaf yn cynnwys argymhelliad i wella ansawdd y cynlluniau wrth gefn.

## Gweithredu a chyflawni

Mae gan lawer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid raglenni penodol ar gyfer eu hachosion risg-uwch. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol, troseddau gyda chyllyll a thrais rhwng plant a rhieni. Mae gan y gwasanaethau sydd â'r adnoddau gorau fynediad at ymarferwyr arbenigol fel seicolegwyr a therapyddion lleferydd ac iaith, sy'n aml yn ategu'r ymyriadau. Mae llawer o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi datblygu ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, gan gydnabod hyd a lled profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma ym mywydau'r plant. Yn y timau cryfaf gwelsom dystiolaeth o'r dulliau hyn yn cael eu defnyddio, a'u defnyddio'n dda.

## Adolygu

Gall bywydau plant sy'n cael eu goruchwylio gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid fod yn hyblyg a rhaid adolygu cynlluniau wrth i gynnydd gael ei wneud ac wrth i amgylchiadau newid. Mae adolygiadau effeithiol o risg o niwed yn canolbwyntio ar adeiladu cryfderau plentyn a gwella ffactorau amddiffynnol ac asesu eu lefelau cymhelliant ac ymgysylltiad drwy gydol yr ymyriad. Dylai adolygiadau a gwblheir gan reolwyr achos arwain at yr addasiadau angenrheidiol yn y cynllun gwaith parhaus ym mhob achos. Mae rhai Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn defnyddio goruchwyliaeth grŵp i gynorthwyo rheolwyr achos i reoli achosion a sicrhau cydbwysedd rhwng llesiant a gwarchod y cyhoedd. Yn y meysydd gorau gwelsom dystiolaeth o hyn mewn sawl achos. Dylai'r rheolwyr sy'n goruchwylio gorchmynion llys hefyd hyrwyddo ymarfer gwaith achos o ansawdd uchel yn gyson. Mae gan nifer sylweddol o blant sy'n cael eu goruchwylio gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid anghenion cymhleth, a gall eu hamgylchiadau newid yn gyflym. Ym mhob achos, dylai adolygiadau fod yn seiliedig ar y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn a rheoli'r risg o niwed a achosir i eraill.

## Dioddefwyr

Wrth asesu'r risg o niwed, dylai rheolwyr achos ystyried y posibilrwydd o niwed i ddioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl. Asesodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gorau y risgiau hyn a rhoddodd sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol. Gallai'r gweithgaredd adferol fod yn uniongyrchol gyda'r dioddefwr neu'n iawn anuniongyrchol yn y gymuned. Os oedd y gweithgaredd adferol yn anuniongyrchol, roedd rheolwyr achos yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r dioddefwr. Fe wnaethom argymhellion i wella'r gwaith gyda dioddefwyr mewn chwarter o'r arolygiadau.

## Beth nesaf

Fel gyda'n harolygiadau er 2018, yn 2021 gwelsom fod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dda am asesu, cynllunio a darparu ymyriadau mewn perthynas â ffactorau ymatal, ond mae'r patrwm o reoli diogelwch, llesiant a'r risg o niwed difrifol yn duedd barhaus sy'n peri pryder. Rydym yn ymwybodol bod gwasanaethau wedi canolbwyntio ar sicrhau bod dull gweithredu 'gofal plant yn gyntaf' yn cael ei roi ar waith, ond nid ydym o'r farn bod yn rhaid i hyn fod yn anghydnaws â'i gilydd â pharhau i sicrhau bod risgiau plant sy'n bresennol i eraill yn dal i gael eu hasesu a'u deall yn effeithiol. Dywedwn hyn yn enwedig o ystyried y cynnydd mewn troseddu treisgar a chymhlethdod achosion y plant sy'n gweithio gyda Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid. Am y rheswm hwn, rydym yn annog Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar asesu risg yn ddigonol a rhoi cynllunio a gweithredu effeithiol ar waith i reoli, lliniaru a lleihau risgiau lle bynnag y bo modd.

# 6. Ansawdd gwaith Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid gyda grwpiau penodol o blant

## Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

Mae'r garfan hon yn cynrychioli rhai o'r plant mwyaf agored i niwed, sy'n aml ag anghenion cymhleth a nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar eu troseddu. Yn y bennod hon, rydym yn edrych ar pam mae'r plant hyn mor aml yn dod i sylw Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, a beth mae'r sector yn ei wneud i'w deall yn well, lleihau'r siawns y byddant yn cyflawni rhagor o droseddau, a lleihau'r risg o niwed maent yn ei achosi i'w hunain ac i eraill.

Mae plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn dal i ffurfio cyfran sylweddol o'r achosion a adolygwyd gennym yn ystod ein harolygiadau ac maent hefyd yn gyfran sylweddol o'r holl blant mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn delio â nhw. O'r achosion a archwiliwyd gennym dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd 25 y cant o'r plant a oedd yn destun gorchymyn llys wedi cael eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol ar ryw adeg yn ystod eu dedfryd (roedd hyn yn amrywio o sero i 67 y cant). Ar gyfer plant sy'n cael datrysiadau y tu allan i'r llys, mae'r gyfran yn is, sef 13 y cant (roedd hyn yn amrywio o sero i 36 y cant). Mae hyn yn debyg i'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn arbennig o agored i niwed – mae llawer wedi profi anfantais ac wedi dioddef trawma. Nodwyd yn '*The Case for Change'* – adolygiad annibynnol o wasanaethau plant a noddwyd gan y Llywodraeth, a gyhoeddwyd yn 2021 – dueddiadau diweddar yn ymwneud â phlant mewn gofal a'r effaith mae'r rhain yn ei chael ar gyfiawnder ieuenctid. Mae'n werth nodi mai pobl ifanc yn eu harddegau yw'r grŵp sy'n tyfu gyflymaf yn y llwyth achosion amddiffyn plant a'r rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol – ac mae'r system yn eu methu pan fyddant yn wynebu niwed y tu allan i'r cartref. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad yw gwasanaethau'n gwneud digon i nodi plant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio - er enghraifft drwy linellau cyffuriau, cyffuriau a rhwydweithiau troseddol eraill. O ganlyniad, mae gormod o bobl ifanc yn eu harddegau yng ngofal yr awdurdod lleol yn dod i sylw gwasanaethau troseddau ieuenctid.

Nododd yr adroddiad hefyd fod 41 y cant o'r holl blant mewn gofal yn cael eu lleoli y tu allan i ardal eu cartref. Roedd yn cydnabod y gallai fod yn fuddiol i nifer fach o blant symud o amgylchedd lle gallent fod mewn perygl. Fodd bynnag, i lawer o bobl eraill, mae'n brofiad ansefydlog gan y gellir gwanhau cysylltiadau â theuluoedd, ysgolion a gwasanaethau lleol eraill.

Nid yw'r casgliadau hyn yn anghyfarwydd i ni. Yn ein cyflwyniad i'r adolygiad, fe ddywedon ni: *'Our inspections repeatedly show the difficulties local authorities experience in trying to manage risks emanating from outside the family, within a children's social care system that was not designed to mitigate such external risks to children. Child protection categories should be broadened to incorporate contextual risks outside of the family unit e.g. child exploitation and a consideration of how partnerships can best identify and reduce these risks.'*

Yn gyffredinol, nid yw ein harolygon yn 2021 yn awgrymu llawer o wahaniaeth yn ansawdd y gwaith achos rhwng plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a'r rhai nad oeddent – sy'n beth cadarnhaol – er bod ein sampl yn gymharol fach. Roedd y gwaith i ategu ymatal ac ategu diogelwch a llesiant y plentyn ei hun yn foddhaol mewn tua phedair rhan o bump o'r achosion y gwnaethom eu harchwilio cyn mis Gorffennaf 2021. Roedd rheoli risg o niwed yn dlotach, er bod hyn yn berthnasol i blant nad oeddent yn derbyn gofal hefyd.

**Tabl 1: Canran yr achosion y canfuwyd eu bod yn foddhaol o ran cwestiynau allweddol yr arolygiad – plant sy’n derbyn gofal o gymharu â phlant nad ydynt yn derbyn gofal (cyn ac ar ôl Gorffennaf 2021).**

| | Canran yr achosion y canfuwyd eu bod yn foddhaol (cyn mis Gorffennaf 2021) | | | Canran yr achosion y canfuwyd eu bod yn foddhaol (ar ôl mis Gorffennaf 2021) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ddim yn derbyn gofal | Derbyn gofal y tu allan i’r ardal | Derbyn gofal y tu mewn i’r ardal | Ddim yn derbyn gofal | Derbyn gofal y tu allan i’r ardal | Derbyn gofal y tu mewn i’r ardal |
| **Ymatal** | | | | | | |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi’n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn | 77% | 85% | 79% | 84% | 63% | 79% |
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio’n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn | 83% | 84% | 86% | 80% | 75% | 71% |
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol | 86% | 82% | 79% | 84% | 88% | 79% |
| Roedd y gwaith adolygu’n canolbwyntio’n ddigonol ar ymataliad y plentyn | 84% | 87% | 89% | 82% | 63% | 71% |
| **Diogelwch** | | | | | | |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi’n ddigonol sut i gadw’r plentyn yn ddiogel | 71% | 81% | 84% | 64% | 63% | 57% |
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio’n ddigonol ar sut i gadw’r plentyn yn ddiogel | 65% | 76% | 71% | 67% | 88% | 71% |
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi cadw’r plentyn yn ddiogel yn effeithiol | 83% | 78% | 83% | 71% | 75% | 79% |
| Roedd y gwaith adolygu’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw’r plentyn yn ddiogel | 75% | 76% | 84% | 73% | 63% | 64% |
| **Risg o niwed** | | | | | | |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 71% | 77% | 65% | 56% | 75% | 36% |
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio’n ddigonol ar sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 65% | 75% | 58% | 55% | 75% | 43% |
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi cadw pobl eraill yn ddiogel yn effeithiol | 78% | 64% | 71% | 56% | 75% | 50% |
| Roedd y gwaith adolygu’n canolbwyntio’n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill | 70% | 74% | 69% | 65% | 75% | 71% |

Gwelsom fod gan Wasanaethau Troseddau Ieuenctid sy'n perfformio'n effeithiol yn y maes hwn bartneriaethau da gyda gwasanaethau plant a rhai darparwyr gofal preifat. Roedd ganddynt hefyd fyrddau rheoli a oedd yn deall eu rôl allweddol o ran ysgogi partneriaethau llwyddiannus a staff a oedd yn gallu canfod a chefnogi anghenion eu plant mewn gofal yn effeithiol. Lle dangosodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddull partneriaeth cryf yn eu bwrdd rheoli, a bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ar y lefel weithredol, roedd y canlyniadau ar y cyfan yn fwy cadarnhaol, ond mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn.

Ar gyfer y plant hynny sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w hardal leol dan oruchwyliaeth Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, gwelsom anghysondeb o ran cynllunio, yn enwedig mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau eu cartref a'r awdurdod lleol sy'n lletya, heb fawr ddim cyfathrebu o ardal y cartref. Felly, roedd yn brawf o waith Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Swydd Gaer nad oeddem yn gweld unrhyw wahaniaeth amlwg yn y ffordd roedd plant yn cael eu cynorthwyo yn y maes hwn, beth bynnag fo'u statws Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid 'cartref' neu 'letyol'.


Roedd gan rai Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a archwiliwyd gennym - er enghraifft, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blackpool, lawer mwy o gartrefi plant nag eraill ac rydym wedi canfod y gallai hyn effeithio'n sylweddol ar lwyth achosion Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid 'lletyol'. Roedd y rhan fwyaf o'r cartrefi plant hyn yn cael eu rheoli'n breifat gan amrywiaeth eang o ddarparwyr a oedd yn gofalu am blant o bob rhan o'r wlad, gyda chysylltiadau cyfyngedig â Blackpool.

## Y gwasanaeth a ddarperir i blant du a phlant o dreftadaeth gymysg

Roedd *Thematic inspection of the experiences of black and mixed heritage boys in the youth justice system* (Hydref 2021) hefyd yn nodi bod diffyg ystyriaeth o ethnigrwydd y plentyn yn amlwg pan oedd plant yn cael eu lleoli i ffwrdd o'u hardaloedd cartref.

Mae plant du a threftadaeth gymysg yn parhau i gael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder ieuenctid, ac maent wedi bod yn ffocws allweddol i ni yn 2021. Bu symudiad sylweddol yn nodweddion ethnig pobl ifanc yng ngharfan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn genedlaethol ers diwedd Mawrth 2011. Mae cyfran y plant sy'n derbyn rhybudd neu ddedfryd sy'n wyn wedi gostwng o 84 y cant i 70 y cant. Yn yr un cyfnod, mae cyfran y bobl ifanc sy'n nodi eu bod yn ddu sy'n derbyn rhybuddiad neu ddedfryd wedi cynyddu o saith y cant i 12 y cant, a'r gyfran sy'n nodi bod ganddynt dreftadaeth gymysg o bedwar y cant o'r baich achosion i 10 y cant. Roedd cyfran y plant yn y ddalfa a oedd wedi nodi eu bod yn bobl dduon neu'n bobl â threftadaeth gymysg wedi cyrraedd 43 y cant erbyn mis Mawrth 2021.

**Ffigur 12: Cyfran y plant sy'n derbyn rhybudd neu ddedfryd yn ôl ethnigrwydd, Cymru a Lloegr (blynyddoedd rhwng mis Mawrth 2011 a 2021)**




Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2019/2020, fe wnaethom nodi'n glir ein pryderon am y nifer anghymesur o blant â threftadaeth ddu a chymysg, yn enwedig bechgyn du, sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid. Er bod cyfran fach o blant o leiafrifoedd ethnig yn dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid bob blwyddyn, a bod y niferoedd wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf, mae'r nifer fach sy'n dod i mewn yn anghymesur o debygol o fod yn ddu. Yn yr un modd â phlant mewn gofal, mae'r anghymesuredd hwnnw'n cynyddu po fwyaf yr ewch chi i mewn i'r system.

Roedd adroddiad 2019/2020 hefyd yn nodi bod byrddau rheoli yn ymwybodol ac yn awyddus i ddeall anghymesuredd a datblygu cynlluniau monitro a gweithredu, ond nid oedd hyn wedi arwain at ganlyniadau gwell i blant. Daethom i gasgliad bod gan wasanaethau troseddau ieuenctid ran hanfodol i'w chwarae o ran mynd i'r afael â'r anghymesuredd hwn.

## Archwiliad thematig o brofiadau bechgyn du a bechgyn o dras gymysg yn y system cyfiawnder ieuenctid

Cymaint oedd ein pryder ynghylch anghymesuredd fel ein bod ni wedi penderfynu ymchwilio'n fanylach i'r mater hwn. Ym mis Hydref 2021, fe wnaethom gyhoeddi *Thematic inspection of the experiences of black and mixed heritage boys in the youth justice system* (Hydref 2021).

Dewiswyd yr holl wasanaethau troseddau ieuenctid yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r arolygiad thematig ar sail eu llwyth achosion sylweddol a'r gor-gynrychiolaeth o fechgyn du a/neu dreftadaeth gymysg sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Buom yn edrych ar y cwestiwn a oedd y gwaith a gyflawnwyd yn ystyried ethnigrwydd y plentyn, ac unrhyw brofiad cysylltiedig o wahaniaethu. Buom yn archwilio achosion unigol, yn cyfweld bechgyn a'u rheolwyr achos yn ogystal ag uwch reolwyr, ac yn cynnal grwpiau ffocws.

Buom yn cwrdd â sefydliadau gan gynnwys Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, Ofsted, Cymdeithas yr Ynadon, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

## Beth wnaethon ni ei ddysgu am y bechgyn

Yn yr holl wasanaethau a arolygwyd gennym, dywedodd staff a rheolwyr wrthym fod y rhan fwyaf o fechgyn du a threftadaeth gymysg yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi profi nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod ganddynt lefelau uchel o angen, fel anghenion addysgol arbennig ac anawsterau iechyd meddwl, nad oeddent bob amser wedi

cael eu nodi na'u trin yn briodol nes iddynt ddod i gysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid – thema gyson o'r arolygiad hwn. Yn ogystal:

- roedd consensws cyffredinol ymysg Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid y gallai canlyniad gwahanol fod wedi bod pe bai problemau ac anawsterau wedi cael sylw yn gynharach ym mywydau'r plant
- mewn achosion ar ôl y llys a arolygwyd, roedd 60 y cant o'r bechgyn wedi cael eu gwahardd o'r ysgol ar y pryd neu yn y gorffennol, a'r mwyafrif yn barhaol
- roedd bron i draean wedi dioddef camfanteisio troseddol ar blant
- mewn hanner yr achosion a arolygwyd roedd tystiolaeth bod y plentyn wedi profi gwahaniaethu ar sail hil; ar y cyfan, roedd y bechgyn y buom yn siarad â nhw yn derbyn hyn fel 'sut mae pethau fel arfer'
- roedd y bechgyn wedi tyfu i fyny yn ardaloedd tlotaf eu trefi a'u dinasoedd ac roeddent yn aml wedi dioddef trais a chwalfa deuluol.

**Tabl 2: Nodweddion archwiliadau gwaith achos ar ôl y llys a'r tu allan i'r llys (roedd pob achos yn fechgyn du neu dreftadaeth gymysg):**

| **Nodweddion** | **Allan o 144 achos ar ôl y llys – barn yr arolygydd** | **Allan o 59 achos y tu allan i'r llys – barn yr arolygydd** |
|---|---|---|
| Wedi eu gwahardd o'r ysgol | 60% | 41% |
| Wedi eu heffeithio gan ecsbloetio troseddol | 30% | 15% |
| Wedi profi gwahaniaethu ar sail hil | 50% | 39% |
| Yn destun Plentyn mewn angen neu Gynllun amddiffyn plant | 32% | 10% |
| Plant ag anabledd | 26% | 29% |
| Dim euogfarnau blaenorol | 54% | Amh. |
| Oedran y mwyafrif o blant | Amh. | 12-14 mlynedd |

## Beth wnaethon ni ei ddysgu gan y bechgyn

Bu Llais Defnyddwyr, sefydliad sy'n cael ei arwain gan ac sy'n cyflogi pobl sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder troseddol eu hunain, yn siarad, ar ein rhan, â 38 o fechgyn ar draws y naw ardal a arolygwyd. Soniodd y rhan fwyaf o fechgyn am yr heriau roeddent yn eu hwynebu yn ystod eu magwraeth a sut roedd eu cymdeithasau â chyfoedion yn achos llawer ohonynt yn cael eu pennu drwy fyw yn yr un ardal a chael profiad ar y cyd yn hytrach na thrwy ddewis ymwybodol. Buont yn siarad yn faith am yr heddlu'n eu stopio i'w harchwilio a phroffilio hiliol. Roedd hyn yn arbennig o arwyddocaol i'r rhai a oedd yn byw yn Llundain.

Wrth drafod eu hymwneud â'u Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid unigol, dywedodd y bechgyn:

- nid oeddent bob amser yn glir ynghylch rôl y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid na pha gymorth y gallai ei gynnig iddynt; roeddent yn gweld eu cynllun dedfrydu neu ymyriad y tu allan i'r llys fel rhywbeth yr oedd yn rhaid iddynt ei gyflawni

- roeddent yn aml yn teimlo nad oedd angen unrhyw gymorth arnynt gan weithwyr proffesiynol, neu o leiaf nid oeddent yn gallu mynegi pa gyngor ac arweiniad a allai fod yn ddefnyddiol
- i rai, roedd teimlad bod ymyriadau'n gweithio orau pan nad oedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid lawer o gyswllt â nhw, ond roedd hyn hefyd yn golygu eu bod yn gweld eu hymyriadau fel rhywbeth nad oedd llawer mwy nag ymarfer 'ticio blychau'
- pan oedd ymyriadau'n fwy dwys a heriol, cydnabuwyd bod hyn yn rhoi mwy o fudd ac yn hyrwyddo ymgysylltu gwell.

Roedd bron pob un o'r bechgyn yn disgrifio perthynas gadarnhaol gyda'u gweithwyr, gan ddweud eu bod yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu deall. Dim ond dau o'r 38 o fechgyn a ddywedodd fod ethnigrwydd eu gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn arwyddocaol iddynt. Mae hyn yn awgrymu mai sgiliau, dealltwriaeth, gwybodaeth a gonestrwydd y gweithiwr a'r berthynas maent yn ei ffurfio gyda'r bechgyn yw'r ffactorau pwysicaf o ran cynorthwyo a hyrwyddo ymgysylltiad ystyrlon ac effeithiol.

Mae mynd i'r afael ag anghymesuredd wedi bod yn flaenoriaeth ers tro byd i'r rhan fwyaf o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid ac yn amcan mewn cynlluniau cyfiawnder ieuenctid ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar ni fu digon o ysgogiad i wella a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n sicrhau gwell canlyniadau i fechgyn du a threftadaeth gymysg.

Er mwyn lleihau gor-gynrychiolaeth bechgyn du a threftadaeth gymysg yn y system cyfiawnder troseddol, rhaid cael dealltwriaeth leol glir o'r hyn sy'n ei yrru yn y lle cyntaf, gyda chynllun gwaith manwl a chadarn i fynd i'r afael ag ef. Gwelsom nad oedd y rhain wedi bod ar waith yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae nifer o wasanaethau wedi rhoi cynlluniau gweithredu ar waith yn fwy diweddar, ond mae cynnydd eto i'w weld i leihau'r anghymesuredd yn y gymysgedd o blant sy'n dod i mewn i'r system.

Ar lefel bwrdd rheoli, roedd gwybodaeth am ddata cenedlaethol ar anghymesuredd a data lleol ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig - er enghraifft, ystadegau aildroseddu a charcharu. Fodd bynnag, nid oedd digon o fanylion manwl am anghenion lleol bechgyn du a threftadaeth gymysg i alluogi aelodau'r bwrdd ac arweinwyr strategol i fynd i'r afael â'r hyn a allai fod yn gyrru eu gor-gynrychiolaeth.

Roedd gennym bryderon hefyd am ansawdd y gwaith achos sy'n cael ei gyflawni. Roedd datgysylltu yn thema a welwyd. O ran deall angen, roedd gan y staff a oedd yn gweithio gyda'r bechgyn ddealltwriaeth fanwl o'r heriau roeddent yn eu hwynebu, a'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'u diogelwch a'u llesiant, a'r risg o niwed roeddent yn ei pheri i bobl eraill. Fodd bynnag, nid oeddent bob amser yn deall y darlun ehangach, y blaenoriaethau strategol, na'r dystiolaeth a'r goblygiadau o ran gorgynrychiolaeth.

## Staffio

Gwelsom fod gan y rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio gyda bechgyn du a threftadaeth gymysg lwyth achosion cymharol hawdd eu rheoli a oedd yn rhoi cyfle iddynt feithrin perthynas gadarnhaol gyda'r plant roeddent yn gweithio gyda nhw, a gwnaethant hyn yn dda.

Roedd maint ac ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn amrywio ar draws y gwasanaethau, ond roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod a hyfforddiant ar gydraddoldeb hiliol. Teimlai'r mwyafrif fod hyn wedi eu paratoi yn 'eithaf da' ar gyfer gweithio gyda bechgyn du a threftadaeth gymysg.

Fodd bynnag, roedd ein canfyddiadau ar ansawdd gwaith achos yn dangos bod angen mwy o hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymorth. Roedd rhai staff yn ymddangos yn ddihyder wrth drafod diwylliant a/neu brofiadau o wahaniaethu, a oedd yn golygu nad oedd bechgyn treftadaeth gymysg a du yn cael eu harchwilio, eu deall na'u hateb yn llawn. Gwelsom nad oedd staff bob amser yn codi pryderon pan oeddent yn teimlo bod gwahaniaethu wedi bod yn erbyn plant - er enghraifft, yng nghyswllt gweithgarwch stopio a chwilio.

Gallai'r diffyg sylw a'r cynnydd hwn awgrymu y gallai bechgyn yn y system cyfiawnder ieuenctid sy'n profi hiliaeth deimlo fod hynny wedi cael eu normaleiddio, nid yn unig i'r bechgyn eu hunain, ond hefyd i'r rhai sy'n gweithio gyda nhw.

## Ansawdd gwaith achos

Roedd diffygion sylweddol yn ansawdd y gwaith achos a oedd yn cael ei ddarparu i fechgyn du a threftadaeth gymysg yn y cyfnod ar ôl y llys a gwaith y tu allan i'r llys. Yn gyffredinol, aseswyd bod ansawdd yr asesu a'r cynllunio'n ddigonol mewn llai na hanner yr achosion a archwiliwyd gennym ar gyfer y ddau fath o waith. Roedd gweithredu a chyflwyno ymyriadau gyda bechgyn du a threftadaeth gymysg yn annigonol mewn dros draean o'r achosion.

Aseswyd bod adolygu gweithgarwch mewn perthynas â gwaith achos statudol yn annigonol ar gyfer plant sy'n destun gorchmynion llys, yn ogystal â gweithio ar y cyd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Mewn 40 y cant o achosion lle cafwyd penderfyniad y tu allan i'r llys ac mewn hanner yr achosion ar ôl bod yn y llys, roedd y plentyn wedi profi gwahaniaethu ar sail hil (lle'r oedd gwybodaeth wedi ei chofnodi) ac yn y mwyafrif helaeth o achosion, nid oedd effaith hyn wedi ei archwilio na'i hystyried.

Roedd safon wael yr asesu yn effeithio ar ansawdd y cynllunio a'r gwaith a gyflawnwyd yn gyffredinol. Yn fwy cadarnhaol, cafwyd tystiolaeth bod rheolwyr achos yn ffurfio perthynas ystyrlon gyda'r plant a'u rhieni neu ofalwyr. Fodd bynnag, nid oedd y rhain bob amser yn cael eu defnyddio i fynd 'o dan yr wyneb' ac i edrych ar yr heriau yr oedd y bechgyn yn eu hwynebu a sut gellid cysylltu'r rhain â'u troseddu.

## Ethnigrwydd llwyth achosion yr arolygiadau yn 2020/2021

Yn ein harchwiliadau yn 2020/2021 o 33 gwasanaeth troseddau ieuenctid, roedd 15 y cant o'r achosion a welsom lle cafwyd penderfyniadau y tu allan i'r llys yn blant o gefndiroedd du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (o'i gymharu â 26 y cant yn 2019/2020). Ar gyfer achosion ar ôl bod yn y llys (gan gynnwys caethiwed), roedd 22 y cant o blant o gefndiroedd du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (o'i gymharu â 41 y cant yn 2019/2020).

Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom newid y ffordd rydym yn archwilio amrywiaeth, a chafodd cwestiynau blaenorol am amrywiaeth eu gwneud yn fwy clir a'u gwahanu oddi wrth amgylchiadau personol. Roeddem wedi cyflwyno cwestiynau amrywiaeth penodol ar draws parth un (cyflawni sefydliadol) ac ar draws parthau dau (achosion llys) a thri (achosion y tu allan i'r llys) wrth asesu, cynllunio, gweithredu a chyflawni (ac adolygu ar gyfer achosion llys).

Mae Tabl 3 yn dangos y cwestiynau newydd a gyflwynwyd i'n safonau ym mis Gorffennaf 2021. Diffinnir 'amrywiaeth' yma gan nodweddion gwarchodedig y garfan. Enghraifft o hyn yw ethnigrwydd plentyn, ond mae'r cwestiynau hyn hefyd yn cynnwys meysydd eraill fel rhyw, anabledd ac oed.

**Tabl 3: Achosion llys: asesu, cynllunio, cyflawni ac adolygu amrywiaeth mewn arolygiadau yn 2020/2021:**

| A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | % |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ydyw | 71% |
| Nac ydyw | 29% |
| **A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?** | **%** |
| Ydyw | 70% |
| Nac ydyw | 30% |
| **A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn?** | **%** |
| Ydyw | 86% |
| Nac ydyw | 14% |
| **A yw adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?** | **%** |
| Ydyw | 76% |
| Nac ydyw, a dylai fod wedi gwneud hynny | 20% |
| Nid oedd angen adolygu cryfderau na ffactorau amddiffynnol y plentyn | 4% |

**Tabl 4: Achosion y tu allan i'r llys: asesu, cynllunio a chyflawni amrywiaeth mewn arolygiadau yn 2020/2021:**

| **A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?** | **%** |
|---|---|
| Ydyw | 68% |
| Nac ydyw | 32% |
| **A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?** | **%** |
| Ydyw | 71% |
| Nac ydyw | 29% |
| **A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn?** | **%** |
| Ydyw | 75% |
| Nac ydyw | 25% |

Mae dadansoddiad o'r data yn dangos, yn gyffredinol, fod tystiolaeth o faterion amrywiaeth yn cael eu hystyried ar draws asesu, cynllunio, gweithredu a chyflawni ac adolygu (adolygiad wedi ei gynnwys ar gyfer achosion ar ôl y llys yn unig) mewn ardaloedd a arolygwyd yn 2020/2021. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod meysydd i'w gwella o hyd.

## Deall anghenion plant o gefndiroedd du, Asiaidd, lleiafrifoedd ethnig a threftadaeth gymysg

Mae gan fechgyn du a threftadaeth gymysg yn y system cyfiawnder ieuenctid anghenion cymhleth yn aml, sy'n codi cwestiynau a phryderon am y cymorth a gânt gan wasanaethau prif ffrwd, eu taith i'r system gyfiawnder a lefel yr angen sydd heb ei ddiwallu.

Yn *thematic inspection of the experiences of black and mixed heritage boys in the youth justice system***Error! Bookmark not defined.Error! Bookmark not defined.** (Hydref 20 21) fe wnaethom ddweud: *'The level of unmet need among this group of children is worrying, and it is also concerning that there is limited understanding about the barriers that may be blocking their access to support before they enter the youth justice system. Issues of trust were frequently cited as a possible reason, but there was little evidence that this was the problem… and when boys struggled to engage and interventions were slow getting off the ground, an explanation given was that it was because time was being taken to 'build*

*trust'. This was unrealistic given that some interventions were less than three months long, so it was critical that trust-building happened alongside delivery of the intervention.'*

**Enghraifft o ymarfer da**

Roedd gan fwrdd rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caint a phartneriaid ddiddordeb gwirioneddol mewn mynd i'r afael ag anghymesuredd. Adeg yr arolygiad, roedd y plant a nododd eu bod yn ddu neu'n Asiaidd neu o leiafrif ethnig yn 21.3 y cant o'r baich achosion. Roedd y bwrdd wedi canolbwyntio'n effeithiol ar or-gynrychiolaeth y plant hyn. Roedd wedi ceisio deall eu profiad o'r system cyfiawnder troseddol, yn enwedig yng nghyd-destun lleoliadau caethiwo. Roedd Cyngor Cydlyniant Cydraddoldeb wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gryfhau dirnadaeth y bwrdd ac annog partneriaid i gwestiynu eu dehongliad o ddata yn erbyn eu tybiaethau personol. Roedd prentisiaid cyfranogiad Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (ieuenctid) wedi cwblhau arolwg adborth o blant sy'n nodi eu bod yn ddu, Asiaidd neu o leiafrif ethnig.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Nodwyd anghymesuredd fel blaenoriaeth allweddol yng nghynllun strategol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac roedd y Gwasanaeth wedi nodi bod plant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli yn y gwasanaeth, yn ogystal â phlant sydd â phrofiad o ofal. Fodd bynnag, nid oedd digon o gynnydd wedi ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Roedd y bwrdd yn gwybod am y mater o anghymesuredd ers dros 18 mis, ond nid oedd hwn wedi ei drosi'n ymateb cydlynol drwy gyfrwng cynllun neu gamau gweithredu ystyrlon ar lefel strategol, ac roedd absenoldeb ymateb partneriaeth ehangach digonol neu gynlluniau a chamau gweithredu digonol i fynd i'r afael ag anghymesuredd yn cael eu hadlewyrchu yn y diffygion yn y trefniadau hyn. Er bod gwybodaeth am amrywiaeth hefyd ar gael yn y gyfres o adroddiadau, nid oedd wedi cael ei defnyddio'n ddigon da i lywio'r gwaith o ddadansoddi angen a datblygu cynlluniau gweithredu dilynol i fynd i'r afael â'r themâu a'r materion a nodwyd.

## Defnyddio data i ganfod anghenion amrywiaeth

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi gwella a hyrwyddo'r defnydd o'r pecyn cymorth Crynodeb o Anghymesuredd Ethnig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn caniatáu i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gynnal dadansoddiad manwl o anghymesuredd ethnig yn eu hardal leol, gwneud penderfyniadau comisiynu mwy gwybodus a chynnal trafodaethau partneriaeth gwell. Fodd bynnag, nid oes disgwyliadau y bydd Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn defnyddio'r data i gefnogi gwelliannau, ac ar hyn o bryd nid oes data wedi ei gyhoeddi sy'n dangos sut mae partneriaethau Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn perfformio yn y maes hwn.

Roedd *Thematic inspection of the experiences of black and mixed heritage boys in the youth justice system***Error! Bookmark not defined.** yn crynhoi'r anghysondebau yn y defnydd o 'r data hwn: *'Boards did not have mechanisms in place to continuously measure and monitor progress against a set of shared targets and objectives. There was an ambition for improvement, but it was not always clearly defined. Not all services were using the YJB disproportionality toolkit or other data to develop an understanding of which children they needed to focus on to reduce over-representation… black and mixed heritage boys were viewed as a single group, despite one of these groups (mixed heritage boys) being significantly over-represented compared with the other.'*

Roedd y darlun cymysg hwn yn amlwg mewn rhai o'n harolygiadau unigol. Roedd gan wasanaethau a ddadansoddodd eu data'n rhagweithiol i edrych ar anghenion amrywiaeth ddealltwriaeth gliriach o anghymesuredd a gallent ddefnyddio'r wybodaeth hon fel sail ar gyfer darparu gwasanaethau. Heb ddefnyddio data o'r fath, ar y cyd â rheoli llwythi achosion o ansawdd uchel, ni all gwasanaethau fod yn hyderus bod ganddynt ddigon o adnoddau neu nad yw prosesau sefydliadol yn rhoi'r grŵp hwn o blant dan anfantais.

**Enghraifft o ymarfer da**

Yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Plymouth, roedd nifer y plant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (13 y cant) yn y baich achosion hwn yn ymddangos i raddau helaeth yn unol â phoblogaeth gyffredinol y ddinas. Fodd bynnag, cwblhaodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei ddadansoddiad ei hunan gan nodi pryderon eraill mewn perthynas ag anghymesuredd. Canfuwyd bod troseddau treisgar yn 93 y cant o'r troseddau honedig a gyflawnwyd gan blant o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Drwy archwilio'r achosion yn fanwl, gan gynnwys siarad â'r plant yn uniongyrchol, nododd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid mai digwyddiadau hiliol oedd y ffactor allweddol yn y gyfradd anghymesur hon o droseddu treisgar. Roeddent wedi ymateb i'r dadansoddiad hwn drwy ddod o hyd i gwmni a oedd yn cefnogi'r boblogaeth ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig leol, i ddarparu gwasanaeth cymorth ar y safle i'w plant, gyda rhaglenni troseddau casineb a pharch pwrpasol.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Er bod gor-gynrychiolaeth plant yn y garfan Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hon wedi cael ei gydnabod – dangosodd gwybodaeth fod 85 y cant o blant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn destun gorchmynion llys, a 23 y cant o'r achosion a gwblhawyd y tu allan i'r llys (roedd un unigolyn yn ddarostyngedig i'r ddau) – nid oedd y defnydd anghymesur posibl o ddatrysiadau statudol wedi cael ei ddadansoddi i sicrhau nad oedd hyn wedi deillio o ymarfer neu benderfyniadau gwahaniaethol. Roedd tystiolaeth anghyson ynghylch a oedd y panel bob amser yn ystyried gwybodaeth am ethnigrwydd.

## Sut beth yw mynd i'r afael ag anghymesuredd yn ymarferol

Dangosodd ein harchwiliad thematig**Error! Bookmark not defined.** ddiffyg cysylltiad clir r hwng gwasanaethau a mynd i'r afael ag anghymesuredd fel amcan hirsefydlog a sut mae hyn yn edrych, ar hyn o bryd, yn ymarferol: *'… our evidence indicates that little progress has been made in terms of the quality of practice. At a strategic partnership level there is a lack of clarity and curiosity about what is causing the disparity and what needs to be done to bring about an improvement.'*

Roedd ein harchwiliadau ar gyfer 2020/2021 yn dangos mwy o'r un fath – roedd sawl ardal yn dangos arfer addawol (enghraifft isod), ond roedd yn ymddangos bod eraill wedi colli cyfleoedd i wella'r gwasanaeth i'r plant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn eu carfan.

**Enghraifft o ymarfer da**

Cyflwynwyd adroddiad ar anghymesuredd i Fwrdd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Swydd Bedford yn 2019, a oedd yn cynnwys camau gweithredu penodol yn ymwneud â mynd i'r afael ag anfantais a gwahaniaethu. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno stiwdio gerddoriaeth i ennyn diddordeb plant sy'n ymwneud â gangiau, a pharhau â sesiynau gwaith grŵp i ferched. Yn ogystal, roedd bron i 17 y cant o'r staff yn dod o gymunedau

lleiafrifoedd ethnig, a oedd yn cynrychioli'r boblogaeth a wasanaethir gan y ddau awdurdod lleol. Sefydlwyd panel trais ieuenctid difrifol, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar nodi plant o dras du a chymysg a allai fod mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol a'u cyfeirio at wasanaethau a gweithgareddau eraill. Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gontract gyda mentor o leiafrifoedd ethnig oedd â phrofiad uniongyrchol o weithgarwch gangiau, a darparwyd gwasanaethau mentora eraill drwy'r grŵp lleihau trais ac ecsbloetio.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Ar adeg yr arolygiad roedd 17 y cant o'r plant yn y gwasanaeth yn dod o gefndir du, Asiaidd neu leiafrif ethnig. Nid oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi sylwi ar y gorgynrychiolaeth hon; roedd mynd i'r afael ag amrywiaeth ac anghymesuredd wedi ei hepgor o'i gynlluniau, ei bolisïau a'i brotocolau. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi methu archwilio sut roedd wedi ymateb i blant â nodweddion gwarchodedig eraill. Cafodd y diffygion hyn effaith ddilynol ar gyflwyno'r gwasanaeth yn ehangach. Er enghraifft, nid oedd y grŵp staff yn cynrychioli'r gymuned ehangach na'r garfan o blant, ac nid oedd cynlluniau i recriwtio a chadw tîm mwy amrywiol.

## Staffio a hyfforddiant

Nid oedd ein canfyddiadau yn yr enghraifft o arfer uchod yn annhebyg i lawer o'n harolygiadau drwy gydol 2020/2021. Nid oedd y staff yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau'n adlewyrchu amrywiaeth y llwyth achosion na hyd yn oed y boblogaeth leol, ac rydym o'r farn bod angen i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid roi mwy o ystyriaeth i hyn er mwyn sicrhau bod eu staff a'u gwirfoddolwyr yn cynrychioli'r gymuned. Fodd bynnag, mae hwn yn faes lle'r ydym wedi dechrau nodi rhywfaint o gynnydd calonogol.

**Enghraifft o ymarfer da**

Yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Kingston a Richmond, roedd sgiliau ac amrywiaeth y gweithlu'n adlewyrchu anghenion plant. Cymerwyd camau i sicrhau bod proffil y staff yn cyfateb i'r nodweddion gwarchodedig ym mhoblogaeth gyffredinol y fwrdeistref, ac roedd gweithgarwch recriwtio diweddar wedi ategu hyn yn frwd. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi dadansoddi'r rhesymau dros y gorgynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig. Roedd mynd i'r afael ag anghymesuredd ethnig yn flaenoriaeth strategol allweddol i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ei Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2020-2024. Roedd gwaith ac ymyriadau'r bartneriaeth yn gryf ac yn seiliedig ar is-grŵp yn adrodd i'r bwrdd rheoli.

## Prosiectau Cyfle i Newid a Chanlyniad 22

Yn ystod ein harchwiliadau yn 2021, daethom ar draws y Prosiect TurningPoint. Cynllun peilot dargyfeirio dan arweiniad yr heddlu yw hwn, rhan o 'Chance to Change' a sefydlwyd mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Lammy 2017.**Error! Bookmark not defined.** D echreuodd y cynllun peilot yn Barnet yn 2018 a chafodd ei gyflwyno'n ffurfiol i Brent a Harrow ym mis Ionawr 2020. Cynhaliwyd cynlluniau peilot hefyd yn Brighton a Hove, Swydd Gaer, Darlington, Merton, De Swydd Gaerloyw, De Tyneside a Chilgwri. Daeth ein harolygiadau lleol yn 2021 hefyd ar draws ardaloedd eraill sy'n darparu'r math newydd hwn o ddarpariaeth, a elwir hefyd yn 'Ganlyniad 22' oherwydd y cod canlyniad a ddefnyddir gan yr heddlu ar eu cofnodion ar gyfer yr achosion hyn. Er enghraifft, yn ardal Heddlu

Northumbria, mae'n cynnwys chwe ardal YOS - er enghraifft, dyma oedd y dull mwyaf cyffredin o ddatrys anghydfodau yn y gymuned.

Bwriad y dull hwn yw asesu a yw model erlyn gohiriedig, heb gyfaddefiad ffurfiol o euogrwydd, yn gallu lleihau aildroseddu a lleihau'r anghymesuredd yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r cynllun peilot yn caniatáu i blant sydd wedi cyflawni troseddau lefel isel neu droseddau tro cyntaf, a'r rhai na wnaethant gyfaddef eu bod yn euog i ddechrau, gael eu hystyried ar gyfer canlyniad gwahanol. Mae plant sy'n cael eu cyfeirio at y cynllun yn cael cyfle i gymryd rhan mewn contract amodol pedwar mis yn hytrach na derbyn rhybuddiad ieuenctid, rhybuddiad amodol neu gyhuddiad i'r llys. Os bydd y plentyn yn cwblhau'r contract amodol yn llwyddiannus, ni fydd 'camau pellach' am ei drosedd.

Disgwylir y bydd adolygiad o'r cynllun peilot yn cael ei gyhoeddi ac rydym yn aros am y canfyddiadau mewn perthynas â'i effaith ar leihau anghymesuredd yn y system cyfiawnder troseddol.

### Mae ein hargymhellion i fynd i'r afael ag anghymesuredd a sicrhau bod anghenion plant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu diwallu.

Ar gyfer pob un o'r 33 o arolygiadau a gynhaliwyd yn 2020/2021, gwnaethom nifer o argymhellion i wasanaethau ynghylch sut dylent wella. Rhoddwyd argymhellion i lawer o wasanaethau troseddau ieuenctid ynghylch eu gwaith ar ethnigrwydd ac anghymesuredd, gan gynnwys ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid:

- sefydlu proses recriwtio sy'n mynd ati'n rhagweithiol i annog tîm amrywiol, sy'n adlewyrchu'r boblogaeth leol
- bod â phrosesau ar waith i gefnogi a chynnal staff o gefndiroedd amrywiol i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a bod cyfleoedd i ddatblygu ar gael
- bod â phecynnau hyfforddi ar gael i arfogi staff i adnabod a deall anghenion amrywiaeth; mae angen i staff fod yn hyderus ac yn abl i gynnal trafodaethau gyda phlant a theuluoedd am ethnigrwydd, treftadaeth, camwahaniaethu a hiliaeth a defnyddio hyn i ddeall a dadansoddi eu profiadau
- defnyddio offer yn gyson ac yn rheolaidd i ddeall proffil plant a theuluoedd sy'n defnyddio eu gwasanaeth. Mae angen gallu dadansoddi data er mwyn canfod ethnigrwydd unigol a chydnabod anghymesuredd ar lefel ficro
- bod yn rhagweithiol wrth gwestiynu data lle nodwyd anghymesuredd er mwyn deall pam mae rhai grwpiau'n cael eu gorgynrychioli. Mae angen i wasanaethau weithio gyda phlant a theuluoedd i ddeall eu profiadau a rhoi cyd-destun i'r data.

Yn dilyn ein harolygiad thematig, fe wnaethom gynhyrchu canllaw arferion effeithiol: *Black and mixed heritage boys in the youth justice system* yn amlinellu'r arferion gorau o ran ein safonau arolygu a gwybodaeth hanfodol ar gyfer ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid.

# 7. Canllawiau ymarfer effeithiol

Mae Arolygiaeth Prawf EM yn diffinio ymarfer effeithiol fel amgylchiadau *lle caiff ein safonau arolygu eu cyflwyno'n dda yn ymarferol*. Mae gennym rôl i'w chwarae o ran nodi a lledaenu arferion effeithiol, yn ogystal â herio perfformiad gwael ac annog gwelliannau.

Rydym yn cyflawni hyn drwy ein harolygiadau unigol o wasanaethau troseddau ieuenctid, ein harolygiadau thematig, a'n cynnyrch ymarfer effeithiol pwrpasol, sydd wedi eu cynllunio o amgylch ein safonau arolygu, ac wedi eu gwreiddio yn y sylfaen dystiolaeth ymchwil ac ymarfer. Cyhoeddir y canllawiau ymarfer effeithiol ar ein gwefan a throsi tystiolaeth o filoedd o achosion a arolygwyd yn arf dysgu.

Y nod yw helpu staff rheng flaen a rheolwyr i ddarparu gwasanaethau troseddau ieuenctid o ansawdd da a gwella canlyniadau i blant. Fe'u cynlluniwyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol prysur sy'n ceisio gwella'r ffordd maent yn goruchwylio plant yn ddiogel ac yn effeithiol.

Ar hyn o bryd, mae ein canllawiau ymarfer effeithiol ar ffurf canllawiau rheoli achosion a chanllawiau ymarfer effeithiol thematig.

### Ar gyfer pwy mae'r canllawiau ymarfer effeithiol?

Mae ein canllawiau wedi eu cynllunio'n benodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes cyfiawnder ieuenctid ond maent hefyd yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio ar draws cyfiawnder ieuenctid a'r system cyfiawnder troseddol. Mae rhai o'n canllawiau ar-lein yn llawlyfrau digidol, sydd ar gael mewn modiwlau byr i ymarferwyr sy'n goruchwylio plant. Mae eraill, fel ein canllawiau ymarfer effeithiol thematig, yn cael eu darparu ar ffurf adroddiad.

### Sut dylid defnyddio canllawiau ymarfer effeithiol?

Mae'n ffynhonnell ar gyfer hunanasesu a datblygu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a hunanfyfyrio. Gall helpu'r gwasanaethau i ddeall sut beth yw 'da' o ran ein safonau arolygu, cynllunio gweithredu ar ôl yr arolygiad neu ar gyfer dysgu cyffredinol. Gall gwasanaethau hefyd feincnodi eu hymarfer eu hunain yn erbyn disgwyliadau arolygu gan ddefnyddio'r safonau a'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym.

### Ymarferwyr – sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed

Ni allwn ddangos sut beth yw ymarfer o ansawdd da heb hanesion uniongyrchol gan ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid a lleisiau plant dan oruchwyliaeth. Rydym wedi cyfweld cannoedd o ymarferwyr ynghylch ein safonau ansawdd ers 2018, gan ganolbwyntio ar achosion unigol a ddechreuodd yn y chwe mis blaenorol, i'n helpu i ddeall yr heriau, y llwyddiannau a'r hyn sydd ei angen i sicrhau goruchwyliaeth gyson o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod yn fformat ein canllawiau nad oes 'un ateb i bawb' a bod angen rhoi sylw i ymarfer a'i deilwra ar gyfer pob plentyn, eu cymunedau lleol a'r gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd ar gael.

## Canllawiau ymarfer effeithiol

### Canllawiau rheoli achosion:

Mae’r canllaw hwn yn ymdrin â rheoli achosion – cyfrifoldeb craidd ymarferydd gwasanaeth troseddau ieuenctid – gan ganolbwyntio ar dri maes allweddol: **ymatal, cadw’r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel** a sut mae’r rhain yn cael eu hystyried yn briodol wrth asesu, cynllunio, gweithredu a darparu, a’r broses adolygu ar gyfer pob plentyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran ymarfer effeithiol gwefan Arolygiaeth Prawf EM er bod crynodeb o’r ffactorau allweddol hyn i’w weld isod.

Ymatal



Ymatal yw’r broses o ymatal rhag troseddu gan y rhai sydd â phatrwm troseddu blaenorol. Mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod plant yn fwy tebygol o fyw bywydau di-drosedd pan fyddant:

- mewn amgylchedd cartref sefydlog
- yn rhyngweithio’n gadarnhaol yn gymdeithasol ac yn rhan o grwpiau cyfeillgarwch
- ymrwymiad i addysg a hyfforddiant
- hunaniaeth pro-gymdeithasol, gydag ymdeimlad o bwrpas yn eu bywydau.

Cadw’r plentyn yn ddiogel



Os oes pryderon am ddiogelwch a llesiant plentyn, gwelwyd bod canolbwyntio ar y canlynol yn arbennig o bwysig:

- perthynas ag eraill sy’n meithrin ymddiriedaeth
- cefnogaeth gymdeithasol ehangach
- cyd-destunau y tu allan i’r teulu
- dulliau sy’n seiliedig ar drawma ac adegau allweddol ym mywyd y plentyn.

Cadw pobl yn ddiogel



Ar gyfer y plant hynny sy’n peri risg sylweddol i eraill, gwelwyd bod y canlynol yn arbennig o bwysig:

- cyfathrebu effeithiol
- gwneud penderfyniadau amddiffynadwy
- perthynas gadarnhaol sy’n llawn ymddiriedaeth.

## Canllawiau ymarfer effeithiol thematig

Fe wnaethom hefyd gynhyrchu adroddiadau arolygu thematig a oedd yn canolbwyntio ar feysydd systemig o ddiddordeb a phryder ynghylch gwasanaethau troseddau ieuenctid. Mae tystiolaeth o’r adroddiadau hyn yn cael ei throsi’n ganllawiau ymarfer effeithiol: anogir ymarferwyr, rheolwyr canol ac arweinwyr strategol i fyfyrio ar eu profiadau eu hunain ac ystyried sut y gallant gymhwyso’r pwyntiau dysgu amlwg yn eu cyd-destunau eu hunain

## Bechgyn du a threftadaeth gymysg – gwersi allweddol

Cyhoeddwyd ein *Canllaw Ymarfer Effeithiol: Bechgyn du a threftadaeth gymysg yn y system cyfiawnder ieuenctid* ***Error! Bookmark not defined.*** ym mis Rhagfyr 2021, yn dilyn yr *a rolygiad thematig o brofiadau bechgyn du a threftadaeth gymysg yn y system cyfiawnder ieuenctid.****Error! Bookmark not defined.*** Roedd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr a rolygiad thematig yn tynnu sylw at yr elfennau a ganlyn fel rhai angenrheidiol mewn ymarfer effeithiol.

**Mae angen ymrwymiad a chyfraniad aml-asiantaeth at wasanaethau i ategu ymatal ymysg bechgyn o dreftadaeth ddu a chymysg, ac i'w cadw nhw ac eraill yn ddiogel.**

### Arweinyddiaeth

Mae angen arweiniad cydlynol a strategaeth glir i fynd i'r afael ag anghymesuredd yng ngwaith y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a'r asiantaethau partner, gan gynnwys:

- ✓ dull gwrth-hiliol sy'n cydnabod natur ac effaith trawma hiliol
- ✓ ymgysylltu'n effeithiol â dedfrydwyr i ddeall amgylchiadau bywyd y bechgyn du a'r bechgyn treftadaeth gymysg sydd wedi eu dwyn gerbron y llysoedd
- ✓ staff sydd wedi eu hyfforddi a'u cynorthwyo'n dda i weithio gyda bechgyn du a threftadaeth gymysg sydd wedi wynebu anfanteision lluosog; ac ymarferwyr sy'n deall ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, a sut i gynorthwyo plant agored i niwed i ymatal rhag troseddu.

### Rheoli, asesu a chynllunio

- ✓ asesiadau sy'n ystyried hunaniaeth pob plentyn, gan gynnwys ei amrywiaeth, ei fregusrwydd, ei ddiogelwch a'i lesiant
- ✓ ymarferwyr sy'n gallu cael sgyrsiau gyda'r bechgyn ynghylch amrywiaeth, proffilio hiliol a gwahaniaethu, ac a fydd yn eiriol ar eu rhan ac yn meddu ar lwybrau uwchgyfeirio clir i fynd i'r afael ag unrhyw rwystr sy'n atal bechgyn o dreftadaeth ddu a chymysg rhag defnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt
- ✓ goruchwylio rheolwyr gan ganolbwyntio ar amrywiaeth a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol.

### Cefnogaeth ac ymyrraeth

Dylai gwasanaethau gynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer bechgyn sydd â threftadaeth ddu a chymysg, drwy ddarpariaeth fewnol neu drwy ei chomisiynu gan sefydliadau cymunedol lleol priodol a chyfeirio; dylid gwerthuso'r cyfraddau derbyn ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Gwnewch yn siŵr hefyd:

- ✓ y cynigir cefnogaeth ac ymyriadau addas a phriodol i rieni a/neu ofalwyr bechgyn sydd â threftadaeth ddu neu gymysg, gydag adolygiad rheolaidd o'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon a pha mor addas ydyw
- ✓ bod ymrwymiad gan arweinwyr ac ymarferwyr i ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cael ei ddangos o ran ymarfer myfyriol, darparu ac ymgysylltu.

### Beth nesaf

Rydym yn bwriadu ehangu ein darpariaeth o ganllawiau ymarfer effeithiol, o ran cynnwys ac ymgysylltu. Rydym yn casglu'r adborth a gawn gan randdeiliaid am ein canllawiau

ymarfer effeithiol, gyda'r bwriad o siapio'r cynnyrch a gynigiwn yn y dyfodol. Rydym eisiau iddynt barhau i fod mor berthnasol a defnyddiol â phosibl.

## Atodiad 1: Rhannu data achosion

Cymhariaeth rhwng y plant sy'n cael dedfryd o garchar a'r rhai sy'n cael dedfryd gymunedol (demograffig), yn seiliedig ar ddata asesu achosion Arolygiaeth Prawf EM.

Rhannu data achosion: arolygiadau cyn ac ar ôl mis Gorffennaf 2021.

**Data atodol**

| | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Caethiwed | Dedfryd gymunedol | Caethiwed | Dedfryd gymunedol |
| **Rhywedd** | | | | |
| Gwryw | 7% | 76% | 9% | 79% |
| Benyw | 0% | 17% | 0% | 12% |
| **Oedran** | | | | |
| 10-11 | 0% | 0% | 0% | 0% |
| 12-14 | 0% | 7% | 0% | 3% |
| 15-16 | 2% | 29% | 0% | 21% |
| 17 | 2% | 28% | 1% | 49% |
| 18+ | 3% | 29% | 8% | 18% |
| **Ethnigrwydd** | | | | |
| Gwyn | 6% | 74% | 5% | 53% |
| Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 1% | 16% | 4% | 34% |
| Arall | 0% | 0% | 0% | 1% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 0% | 2% | 0% | 3% |
| **Anabledd** | | | | |
| Ydyw | 3% | 32% | 7% | 46% |
| Nac ydyw | 4% | 50% | 1% | 38% |
| Ddim yn glir | 0% | 10% | 0% | 8% |
| **Nifer yr euogfarnau blaenorol** | | | | |
| 0 | 1% | 43% | 2% | 38% |
| 1 | 1% | 17% | 0% | 15% |
| 2-5 | 3% | 23% | 6% | 31% |
| 6-10 | 2% | 7% | 0% | 5% |
| 11-20 | 1% | 2% | 2% | 2% |
| 20 + | 1% | 0% | 0% | 0% |

**Data achosion llys**

| Asesu | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|
| | 2019/2020 | 2020/2021* | 2020/2021** |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn | 84% | 78% | 81% |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel | 74% | 74% | 62% |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 67% | 70% | 55% |

| Cynllunio | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|
| | 2019/2020 | 2020/2021* | 2020/2021** |
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn | 80% | 83% | 78% |
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw'r plentyn yn ddiogel | 61% | 67% | 70% |
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 60% | 64% | 55% |

| Gweithredu a chyflawni | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|
| | 2019/2020 | 2020/2021* | 2020/2021** |
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol | 83% | 85% | 83% |
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi cadw'r plentyn yn ddiogel yn effeithiol | 74% | 82% | 73% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi cadw pobl eraill yn ddiogel yn effeithiol | 68% | 75% | 57% |

| | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|
| **Adolygu** | **2019/2020** | **2020/2021*** | **2020/2021**** |
| Roedd y gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar ymataliad y plentyn | 76% | 85% | 78% |
| Roedd y gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel | 65% | 77% | 70% |
| Roedd y gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelu pobl eraill | 59% | 71% | 68% |

*Oherwydd newid mewn safonau a methodoleg yn 2021, nid oes modd cymharu'r sgoriau ar gyfer naw o'r 33 archwiliad a gynhaliwyd yn 2020/2021 â'r rhai a gynhaliwyd yn 2019/2020

**Data o'r naw archwiliad yn dilyn y newid mewn safonau/methodoleg yn 2021

### Data achosion y tu allan i'r llys

| | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|
| **Asesu** | **2019/2020** | **2020/2021*** | **2020/2021**** |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn | 73% | 78% | 70% |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel | 59% | 67% | 56% |
| Roedd yr asesiad yn dadansoddi sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 59% | 71% | 57% |

| | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|

| Cynllunio | 2019/2020 | 2020/2021* | 2020/2021** |
|---|---|---|---|
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn | 73% | 78% | 72% |
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw'r plentyn yn ddiogel | 53% | 62% | 58% |
| Roedd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 55% | 55% | 66% |

| | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu a chyflawni** | **2019/2020** | **2020/2021*** | **2020/2021**** |
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol | 75% | 79% | 76% |
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi cadw'r plentyn yn ddiogel yn effeithiol | 66% | 72% | 66% |
| Roedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi cadw pobl eraill yn ddiogel yn effeithiol | 62% | 70% | 69% |

| | Cyn mis Gorffennaf 2021 | | Ar ôl mis Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|
| **Cydweithio** | **2019/2020** | **2020/2021*** | **2020/2021**** |
| Mae argymhellion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ddigon gwybodus, dadansoddol a phersonol i'r plentyn, gan ategu'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd | 67% | 79% | - |
| Gweithiodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn effeithiol gyda'r heddlu i weithredu'r ddadl y tu allan i'r llys | 74% | 71% | - |

*Oherwydd newid mewn safonau a methodoleg yn 2021, nid oes modd cymharu'r sgoriau ar gyfer naw o'r 33 archwiliad a gynhaliwyd yn 2020/2021 â'r rhai a gynhaliwyd yn 2019/2020

**Data o'r naw archwiliad yn dilyn y newid mewn safonau/methodoleg yn 2021

***Cafodd gweithio ar y cyd ei dynnu o'r naw archwiliad yn dilyn y newid mewn safonau/methodoleg yn 2021

# Atodiad 2: Disgrifiad o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid

Mae Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, o 10 oed hyd at 18 oed, sy'n torri'r gyfraith. Mae'r plant hyn naill ai wedi cael dedfryd gan lys, neu wedi dod i sylw'r heddlu ond heb gael eu cyhuddo. Yn yr achos hwn byddai eu troseddu'n cael ei drin y tu allan i'r llys. Mae Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda'r holl bobl ifanc hyn i'w helpu i fyw bywydau gwell ac, yn y pen draw, cadw draw o droseddu.

Maent yn gwneud y canlynol:

1. helpu pobl ifanc mewn gorsafoedd heddlu
2. darparu cefnogaeth yn y llys
3. goruchwylio pobl ifanc sydd ar ddedfryd gymunedol
4. cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc tra byddant mewn caethiwed a'u helpu i setlo'n ôl i'r gymuned ar ôl iddynt adael caethiwed
5. darparu ymyriadau i helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwahanol yn eu bywyd.

Mae Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn bartneriaethau statudol - hynny yw, mae'r gyfraith yn mynnu eu bod yn cydweithio, ac maent yn amlddisgyblaethol, er mwyn iddynt allu delio ag anghenion y plentyn cyfan. Rhaid iddynt gael staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r gwasanaethau iechyd lleol yn cydweithio er mwyn helpu'r bobl ifanc hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r Gwasanaethau wedi eu lleoli mewn awdurdodau lleol. Mae rai wedi eu hintegreiddio'n llawn i wasanaethau'r awdurdod lleol fel gwasanaethau plant. Mae rhai wedi uno ar draws ffiniau awdurdodau lleol, ac mae eraill yn rhai annibynnol.

Caiff hyn ei bennu'n lleol ac, yn ein profiad ni, nid oes un model penodol sy'n arwain at ganlyniadau da mewn archwiliad. Caiff y rhain eu cyflawni gan arweinyddiaeth cyfiawnder ieuenctid gref a gwybodus a ddaw drwy fwrdd rheoli amlddisgyblaethol a thîm rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Mae gwaith Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cael ei lywodraethu a'u siapio gan amrywiaeth o ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (fel Safonau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid) neu sy'n berthnasol ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft y canllawiau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd).

# Atodiad 3: Disgrifiad o fethodoleg arolygu ieuenctid

Yn ystod gwanwyn 2018 fe wnaethom ni gyflwyno newidiadau i'r ffordd rydym yn archwilio. Fe wnaethom ni ddechrau archwilio Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid gan ddefnyddio safonau newydd a oedd wedi cael eu cyhoeddi.


Mae'r safonau archwilio newydd yn adlewyrchu'r disgwyliadau uchel sydd gan y llywodraeth a'r cyhoedd ynglŷn â Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid. Maent yn seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad, ac yn canolbwyntio ar safon y darparu. Heb fewnbynnau o ansawdd da (fel staff proffesiynol a gwasanaethau cynhwysfawr) a gweithgareddau (fel asesu achosion ac ymyriadau effeithiol) mae Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn llai tebygol o gyflawni eu nodau. Mae fframwaith y safonau archwilio wedi'i grynhoi yn y diagram isod, ac mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan. Mae ein dull ni o archwilio Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn cynnwys canolbwyntio ar dair agwedd ar y darparu ac rydym yn galw'r rhain yn barthau.

**Safonau a pharthau archwilio**



Mae parth un (darpariaeth sefydliadol) yn ymdrin â pha mor dda y mae'r sefydliad yn cael ei arwain, ei reoli a'i drefnu. Mae parthau dau a thri yn ymdrin ag ansawdd y gwaith mewn achosion unigol. Mae parth dau yn canolbwyntio ar ddatrysiadau yn y llys ac mae parth tri yn canolbwyntio ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Mae parthau dau a thri yn ymdrin â'r disgwyliadau parhaus sydd ar Wasanaethau Troseddau Ieuenctid: cefnogi ymatal, amddiffyn y cyhoedd a chadw'r plentyn yn ddiogel. Mae'r safonau darparu gwasanaethau yn y ddau barth yn seiliedig ar fodel ASPIRE, sy'n sefydledig ac yn gydnabyddedig, ar gyfer goruchwylio achosion (Asesu, Cynllunio Dedfrydau, Gweithredu, Adolygu a Gwerthuso).

**Y model ASPIRE**




## Sut rydym yn beirniadu perfformiad

Rydym yn sgorio perfformiad ar gyfer y pedair safon ym mhob parth (fel y dangosir uchod). Ar gyfer pob safon ym mharthau dau a thri, rydym yn gofyn hyd at dri chwestiwn allweddol ynglŷn â safon yr oruchwyliaeth, ac mae archwilwyr yn cofnodi pa ganran o'r achosion maent yn eu harchwilio sy'n bodloni'r cwestiynau hyn. Mae pob cwestiwn yn y parthau'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r achos yn effeithiol, ac mae angen rhoi sylw priodol i bob un ohonynt. Gan hynny, mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei bennu gan y cwestiwn allweddol sy'n cynhyrchu'r sgôr canran isaf o ran cyfran yr achosion sy'n bodloni'r maen prawf hwnnw. Mae ein safonau hefyd yn cynnwys 'trothwy' y mae'n rhaid i bob corff sy'n cael ei arolygu ei basio; lle nad oes digon o asesu o faterion diogelu plant, rhaid cael barn o ddiffyg tystiolaeth i allu asesu niwed. Mae sgoriau ar y lefel safonol yn galluogi i ddarparwyr Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid weld yn glir lle maent yn perfformio'n dda a lle gallant wella.

Mae pob Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cael sgôr gyffredinol ar raddfa pedwar pwynt: 'Rhagorol', 'Da', 'Angen gwella' ac 'Annigonol'. Mae'r sgoriau o'r safonau unigol yn cael eu cyfuno i greu'r sgôr gyffredinol. Mae rheolau sgorio'n cael eu defnyddio i greu sgôr gyffredinol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Mae'r 12 safon yn cael eu sgorio ar raddfa o 0 i 3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; a 'Rhagorol' = 3.

Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei bandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn:

- 0-6 = 'Annigonol'
- 7-18 = 'Angen gwella'
- 19-30 = 'Da'
- 31-36 = 'Rhagorol'.

Rydym yn rhoi sgôr gyffredinol i bob Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am ein bod ni o'r farn bod rhoi sgôr gyfunol ar gyfer bob archwiliad yn sbarduno gwelliannau lle bo angen. Mae sgôr gyffredinol yn mesur ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid, gan ategu unrhyw fesurau allbwn a chanlyniadau a sefydlwyd gan y llywodraeth. Cafodd y safonau a'r sgoriau eu datblygu dros ddeuddeg mis, drwy gynnal gweithdai ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, academyddion a darparwyr. Ar y cyfan, roeddent yn cael eu derbyn yn dda ac maent wedi cael eu derbyn fel y targed ar gyfer ymarfer safonol mewn darparu gwasanaethau.

# Atodiad 4: Cyhoeddiadau mewnwelediad academaidd ar themâu cyfiawnder ieuenctid

## 2021

*Serious youth violence and its relationship with adverse childhood experiences*: Dr Paul Gray, Yr Athro Hannah Smithson a Dr Deborah Jump – Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau ymchwil diweddar ym Manceinion a oedd yn edrych ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trais ieuenctid difrifol, ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, a chyfranogiad pobl ifanc.

*Getting out for Good: Preventing Gangs Through Participation*: Dr Deborah Jump a Dr Rachel Horan – Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth ymchwil ar ferched a gangiau, a sut mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r prosiect 'Getting out for Good' sy'n cyfuno mentora sy'n benodol i rywedd â gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol.

*Experiences and pathways of children in care in the youth justice system*: Dr Anne-Marie Day – Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r amrywiaeth o rwystrau a galluogwyr i gynorthwyo plant mewn gofal, gan effeithio ar eu datblygiad cadarnhaol a'u cyfleoedd mewn bywyd.

*Supporting children's meaningful participation in the youth justice system*: Yr Athro Hannah Smithson a Dr Paul Gray – Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyfranogiad plant mewn penderfyniadau mewn systemau cyfiawnder ieuenctid.

*Traumatic Brain Injury*: Hope Kent a'r Athro Huw Williams – Mae'r adroddiad hwn yn archwilio pa mor gyffredin yw anafiadau trawmatig i'r ymennydd ymysg pobl yn y system cyfiawnder troseddol a chysylltiad hynny â throseddu.

*Neurodiversity – a whole-child approach for youth justice*: Yr Athro Amanda Kirby – Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylfaen dystiolaeth ynghylch niwroamrywiaeth a'r gwersi i'r rhai sy'n gweithio ym maes cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau troseddau ieuenctid.

*Exploring procedural justice and problem-solving practice in Youth Court*: Gillian Hunter a Jessica Jacobson – Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gyfiawnder gweithdrefnol, y cysylltiadau â dilysrwydd, a'r dystiolaeth ymchwil am ei effeithiau cadarnhaol ar ymgysylltu a chydweithredu.

*Collaborative Family Work in Youth Justice*: Yr Athro Chris Trotter – Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at: (i) y cysylltiadau rhwng perthynas o fewn teulu ac ymddygiad troseddol; a (ii) y dystiolaeth ymchwil ar effeithiolrwydd ymyriadau teuluol i blant yn y system cyfiawnder troseddol.

*County lines*: Yr Athro John Pitts – Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at sut mae gweithrediadau Llinellau Cyffuriau wedi symud i'r wlad ac wedi ehangu dros y blynyddoedd diwethaf.

## 2020

*Contextual Safeguarding*: Dr Carlene Firmin – Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut mae Diogelu Cyd-destunol wedi newid ymateb systemau amddiffyn plant i blant sydd mewn perygl o niwed sylweddol mewn lleoliadau a pherthnasoedd y tu allan i'r teulu.